# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

(14.00 - 14.05)

**2 Sefydlu Pwyllgorau a'u cylchoedd gorchwyl**

(14.05 - 14.20) (Tudalennau 1 - 2)

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

(14.20)

**4 Blaenraglen waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

(14.20 - 15.30) (Tudalennau 3 - 119)

Eitem 2

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Cylch gorchwyl y PCCGG

PAPAC(6)-01-21 Papur 1

Gorffennaf 2021

## Diben

**1.** Mae'r papur yn nodi cylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PCCGG).

## Argymhelliad

**2.** Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ei gylch gorchwyl.

## Cefndir

**3.** Mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylchoedd gorchwyl i:

*"(i) archwilio gwariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi;*

*(ii) archwilio deddfwriaeth;*

*(iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog; a*

*(iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru."*

**4.** Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

> *'i gyflawni'r swyddogaethau fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 ac 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall y Pwyllgor graffu ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â pheirianwaith llywodraethu, gan gynnwys ansawdd a safonau'r weinyddiaeth a ddarperir gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Gymru a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.'*

**6.** Mae manylion pellach am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Senedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, sef Pwyllgorau yn y chweched Senedd Teitlau a chylchoedd gorchwy, a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Mehefin 2021.[1]

[1] Y Pwyllgor Busnes, Pwyllgorau yn y chweched Senedd Teitlau a chylchoedd gorchwy, 23 Mehefin 2021

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AS**
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Darren Millar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn Aelod ac yn Gadeirydd y Pwyllgor o 29 Mehefin 2016 tan 28 Mawrth 2021.



**Nick Ramsay AS**
Annibynnol

# Cynnwys

**Rhagair** ........................................ **5**

**Argymhellion** ........................................ **6**

**1. Gweithrediad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** ........................................ **9**

Cylch gwaith ........................................ 9

Sut rydym wedi ymgymryd â'n gwaith yn ystod y Bumed Senedd ........................................ 10

Cyfrannu i raglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru ........................................ 14

Ymatebion Llywodraeth Cymru ........................................ 15

**2. Ymgysylltu â phobl Cymru a'r tu hwnt** ........................................ **16**

Ymweliadau safle ........................................ 16

Digwyddiadau i randdeiliaid ........................................ 17

Ymgysylltu â phobl ifanc ........................................ 17

Gwaith ymgysylltu digidol ........................................ 18

Prif areithiau ........................................ 19

Rhannu ein gwaith ar draws Cymru a'r tu hwnt ........................................ 20

Edrych at y Chweched Senedd ........................................ 21

**3. Cael effaith** ........................................ **22**

Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood ........................................ 22

Trefn reoleiddio cymdeithasau tai ........................................ 23

Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ........................................ 24

Systemau gwybodeg GIG Cymru ........................................ 25

**4. Y pum blaenoriaeth uchaf i'n Pwyllgor olynol** ........................................ **26**

Canlyniadau uniongyrchol pandemig Covid-19 ........................................ 26

Cymorth ariannol i fusnes ........................................ 28

Maes Awyr Caerdydd ........................................ 29

Caffael cyhoeddus ........................................ 30

Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ........................................ 32

**5. Blaenoriaethau tymor canolig i'n Pwyllgor olynol** ........................................ **33**

Craffu ar gyfrifon ..... 33

Gwrth-dwyll ..... 35

Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus ..... 35

Rheoli grantiau yng Nghymru ..... 36

Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ..... 37

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ..... 38

Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau ..... 38

Trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a materion ehangach sy'n deillio o'n hymchwiliad) ..... 40

**6. Adroddiadau Archwilio Cymru ..... 42**

# Rhagair

Wrth i'r Bumed Senedd ddod i ben, mae'n bryd myfyrio ar ein gwaith a rhoi help llaw i'n Pwyllgor olynol. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu i waith y Pwyllgor hwn a'n holl Aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r Pwyllgor yn ystod tymor y Senedd hon. Hefyd, hoffwn dalu teyrnged i Mohammad Asghar, Oscar, aelod hirsefydlog o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Trist gorfod adrodd iddo farw ym mis Mehefin 2020.

Ni allai neb fod wedi rhagweld, bum mlynedd yn ôl, y byddai pandemig byd-eang dinistriol yn ystod blwyddyn olaf y Bumed Senedd. Fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, buom yn gwylio wrth i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru uno i ymateb i'r argyfwng. Gwnaethom ddilyn dull ymarferol o fonitro'r sefyllfa. Roedd ein gwaith craffu yn amserol ac yn sensitif, ond ni wnaethom erioed gyfaddawdu ar ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a sicrhau bod pryderon y cyhoedd yn cael eu cynrychioli yn ein gwaith.

Mae ein dull ymarferol hefyd wedi'i adlewyrchu yn y ffordd rydym wedi gweithio'n gydsyniol fel Pwyllgor, sydd wedi cryfhau ein heffeithiolrwydd wrth dynnu sylw at lywodraethiant gwael a gwariant cyhoeddus aneffeithlon. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau y cytunir ar ein hadroddiadau'n unfrydol. Mae hyn wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref a chredadwy wrth i ni herio Llywodraeth Cymru ar y ffordd y mae'n dangos rheolaeth effeithiol o arian cyhoeddus Cymru.

Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi meithrin perthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru. At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiadau. Rydym wedi bod yn fodlon ar y sicrwydd a gawsom gan Lywodraeth Cymru bod gwersi wedi'u dysgu a bod newidiadau wedi'u gweiithredu'n dilyn ein gwaith.

Yr ymarferoliaeth honno, yn ogystal â nerth mewn consensws a hygrededd, sydd wedi ein gwneud yn Bwyllgor effeithiol. Rydym wedi profi y gallwn newid cyfeiriad Llywodraeth Cymru, arbed miliynau o bunnoedd i'r trethdalwr a sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cynrychioli llais y cyhoedd yng Nghymru ar sut y caiff arian cyhoeddus ei wario. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i'n Pwyllgor olynol wrth barhau â'r gwaith hwn.*

* *Cytunwyd ar y Rhagair hwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Nick Ramsay AS, pan gytunwyd ar yr Adroddiad. Nick Ramsay oedd Cadeirydd y Pwyllgor o 29 Mehefin 2016 tan 28 Mawrth 2021.*

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn parhau i ddyrannu slot cyfarfod wythnosol ar gyfer ein Pwyllgor olynol o fewn y brif amserlen pwyllgorau drwy gydol y Chweched Senedd. Gofynnwn i'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nhrefniadau presennol y pwyllgorau, sef dydd Mercher/dydd Iau bob yn ail. ........Tudalen 10

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i wneud gwaith dan arweiniad y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd i ategu gwaith craidd y Pwyllgor sy'n deillio o ganfyddiadau archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru........Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cael yr hyblygrwydd i gyfarfod yn rhithwir neu mewn fformat hybrid fel sy'n briodol yn ei farn ef. ........Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cymryd rhan weithredol wrth gyfrannu i raglenni gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru i sicrhau y caiff blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd eu hadlewyrchu yn archwiliadau Archwilio Cymru........Tudalen 14

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o fewn 15 diwrnod gwaith, er mwyn llywio penderfyniadau'r Pwyllgor ynghylch sut i flaenoriaethu ei waith, yn unol â'r protocol presennol. ........Tudalen 15

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i argymhellion ein Pwyllgor olynol drwy nodi naill ai 'derbyn' neu 'gwrthod'. ........Tudalen 15

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a chydweithwyr seneddol ar draws y DU a'r tu hwnt i hyrwyddo, cefnogi a gwella gwaith y Pwyllgor. ........Tudalen 21

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwneud corff o waith sy'n canolbwyntio ar ymateb uniongyrchol Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19, gan ddefnyddio adroddiadau perthnasol Archwilydd Cyffredinol Cymru. ........Tudalen 28

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu parhaus ar gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau er mwyn trafod gwerth am arian gwariant cyhoeddus mewn perthynas â'r canlynol:

- yr ymateb uniongyrchol i'r pandemig;
- yr adferiad o'r pandemig;
- cyfnod pontio busnesau i drefniadau masnachu newydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE;
- cymorth parhaus mewn ymateb i'r berthynas fasnachu newydd â'r UE. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu ar berchnogaeth Llywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd, a'r cymorth ariannol a gynigir iddo, yn sgil pandemig Covid-19, a'r adferiad ohono. ........Tudalen 30

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu ystyried canlyniad yr adolygiad Cymorth Gwaith Cymru yng nghyd-destun strategaeth gaffael Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu ar gyllid y GIG o gofio cyd-destun statudol Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ac yn sgil argyfwng Covid-19, ac adferiad ohono. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau â'r gwaith craffu blynyddol ar waith cyfrifon, gan gymryd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd bob blwyddyn a chan gyrff eraill yn gylchol (gan gwmpasu cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus) a myfyrio ar yr ymateb i argymhellion ein gwaith blaenorol. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu trafod a gynyddodd achosion o dwyll yn ystod pandemig Covid-19 a'r camau a gymerodd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i wrthweithio hyn. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i oruchwylio gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy graffu ar y canlynol:

- ystyriaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o gymhwysiad Llywodraeth Cymru o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant;
- ail adroddiad statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2025. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella rheolaeth grantiau, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru a myfyrio ar unrhyw dystiolaeth newydd ar reoli grantiau sy'n codi o waith yr Archwilydd Cyffredinol neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ailedrych ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ar ôl cyhoeddi adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i gael adroddiadau cynnydd rheolaidd mewn perthynas â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, sef y darpar awdurdod iechyd arbenigol digidol newydd, gan gynnwys manylion am weithredu ein hargymhellion ac a oes angen rhagor o waith craffu. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn monitro'r cynnydd a wnaeth y Tîm Rhaglen 111 a'r grŵp Gofal Sylfaenol Brys ar adolygu'r strategaeth a'i gweithredu wedi hynny gyda'r bwriad o ddarparu gofal sylfaenol brys 24/7 cyson. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y gwelliannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y meysydd a nodwyd fel rhan o'r statws daduwchgyfeirio i ymyrraeth wedi'i thargedu, ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru wrth sicrhau gwelliannau drwy ei Threfniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd. ........ Tudalen 41

# 1. Gweithrediad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

## Cylch gwaith

**1.** Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd wedi cadw'r un cylch gwaith yn y Bumed Senedd â'r hyn a ddyrannwyd iddo yn y Pedwerydd Cynulliad, fel y nodir isod:

> **Cyfrifon Cyhoeddus**
>
> Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Mae'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.[1]

**2.** Cytunwyd ar y cylch gwaith hwn ddechrau'r Pumed Cynulliad ar 22 Mehefin 2016 ac mae'n cynnwys:

- goruchwyliaeth gyffredinol cyfrifyddu ariannol ac archwilio;
- sicrhau gwerth am arian ac effeithiolrwydd gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru;
- cyfathrebu strategol;
- cynllunio strategol a chorfforaethol yn Llywodraeth Cymru;
- bod yn agored yn y Llywodraeth, gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth;
- goruchwylio perthynas Llywodraeth Cymru â Swyddfa Archwilio Cymru;
- staffio, gan gynnwys telerau ac amodau cynghorwyr arbennig a gweision sifil Llywodraeth Cymru, ond nid aelodau o'r uwch wasanaeth sifil.

**3.** Mae'n bwysig nodi bod y cylch gwaith hwn yn galluogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gwmpasu cyfrifoldebau gweinidogol nad ydynt yn dod dan gylch gwaith pwyllgorau eraill. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn

[1] Addasiad o Bapur y Pwyllgor Busnes - BC(5)02-16(p6) Pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad – Mai 2016

ddigon eang i drafod unrhyw faes o weithredu polisi ond heb amau rhinweddau amcanion polisi.

## Sut rydym wedi ymgymryd â'n gwaith yn ystod y Bumed Senedd

**4.** Ddechrau'r Bumed Senedd, trefnodd y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyfarfod o fewn y brif amserlen pwyllgorau.

**5.** Croesawodd y Pwyllgor y newid hwn gan fod y slot hwn wedi ein galluogi i gynnal ymchwiliadau ychwanegol, gan dynnu tystiolaeth ehangach y tu hwnt i Lywodraeth Cymru ac arfer ein hystod o swyddogaethau'n llawn. Roeddem yn gallu rhoi sylw dyladwy i'n gwaith yn deillio o adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr 'Archwilydd Cyffredinol'). Mae hefyd wedi ein galluogi i ehangu ein gwaith, gan hyrwyddo gwerth am arian o ran gwariant cyhoeddus drwy gynnal ymchwiliadau dan arweiniad y Pwyllgor. Nid yw cyfarfod yn wythnosol yn anarferol a nodwn fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin yn cyfarfod dwywaith yr wythnos o gofio ehangder y materion y mae'n gyfrifol amdanynt.

**6.** Nid ydym yn credu bod cyfarfod yn llai aml nag wythnosol, a/neu heb slot yn y brif amserlen Pwyllgorau, yn ddigonol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn parhau i ddyrannu slot cyfarfod wythnosol ar gyfer ein Pwyllgor olynol o fewn y brif amserlen pwyllgorau drwy gydol y Chweched Senedd. Gofynnwn i'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nhrefniadau presennol y pwyllgorau, sef dydd Mercher/dydd Iau bob yn ail.

**7.** Mae ein gwaith yn y Bumed Senedd wedi amrywio'n fawr ac mae'n ymdrin ag ehangder swyddogaethau Llywodraeth Cymru, o archwilio dull y GIG o reoli meddyginiaeth i drafod Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cynnal ymchwiliadau manwl i ystod eang o faterion, gan gynnwys caffael cyhoeddus; cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru; Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru; Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif; ac addasiadau tai. Rydym hefyd wedi craffu ar weithrediad deddfwriaeth y llywodraeth megis Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Dull gweithredu hybrid: gwaith dan arweiniad Archwilio Cymru a'r Pwyllgor

**8.** Mae cyfran sylweddol o'n gwaith yn defnyddio astudiaethau gwerth am arian ac adroddiadau archwilio eraill a gaiff eu llunio gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i swyddogion yn ein cynghori drwy gydol yr ymchwiliadau hyn drwy roi papurau briffio a chyngor arbenigol i'r Pwyllgor cyn cyfarfodydd ac wrth i ni drafod y dystiolaeth a gawn.

**9.** Rydym yn dibynnu ar arbenigedd technegol a hawl statudol i archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Rydym wedi gweithio'n agos ochr yn ochr ag Archwilio Cymru i hyrwyddo gwerth am arian o ran gwariant cyhoeddus ac i dynnu sylw at gamreoli arian cyhoeddus pan fo angen. Mae'r corff o waith rydym wedi'i wneud ochr yn ochr ag Archwilio Cymru wedi bod yn gadarn ac yn effeithiol wrth wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwario arian cyhoeddus.

**10.** Fodd bynnag, mae ein cylch gwaith eang yn rhoi hyblygrwydd i ni o ran sut rydym yn ymgymryd â'n gwaith. Rydym wedi defnyddio'r hyblygrwydd hwn i gynnal ymchwiliadau dan arweiniad y Pwyllgor, mewn modd tebyg i bwyllgorau eraill y Senedd. Mae hyn wedi bod yn hanfodol i sicrhau y gallwn fynd ar drywydd meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor ac ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg sydd yn ein cylch gwaith, ond nad yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno adroddiad arnynt.[2] Dyma'r prif feysydd gwaith dan arweiniad y Pwyllgor dros y Bumed Senedd:

- gwaith craffu blynyddol ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon detholiad o sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus. Mae'r gwaith craffu hwn yn cynnwys archwiliad manwl o wariant, effeithiolrwydd, llywodraethiant a gweithdrefnau a phrotocolau rheoli risg, a gonestrwydd mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus;
- dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei hymateb i bandemig Covid-19 mewn modd amserol ond sensitif;
- gwaith craffu ar 'gyfarwyddyd gweinidogol' cyntaf oll Llywodraeth Cymru;[3]
- materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal;

[2] Mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn defnyddio archwiliadau a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hyd yn oed os nad ydynt wedi arwain at adroddiadau ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

[3] Mae Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn ddigwyddiad cymharol brin a dim ond un sydd wedi'i gyhoeddi yng Nghymru ers 1999 hyd yn hyn. Maent yn codi'n gyffredinol mewn sefyllfaoedd pan fo'r Gweinidog perthnasol am fwrw ymlaen â gwariant sy'n groes i'r cyngor ysgrifenedig ffurfiol a roddir i'r Gweinidog hwnnw gan ei Swyddog Cyfrifyddu adrannol. Fel arfer, mae cyfarwyddiadau o'r fath yn ymwneud â materion gwerth am arian.

- rheoleiddio cymdeithasau tai;
- y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru'r M4;
- gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**11.** Yn ystod cynadleddau a digwyddiadau i rannu arferion da, mae ein hymchwiliadau dan arweiniad y Pwyllgor wedi ennyn diddordeb y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgorau Archwilio mewn awdurdodaethau gwahanol.

**12.** Mae ymchwiliadau dan arweiniad y Pwyllgor wedi bod yn hynod werthfawr a'n galluogi i fynd ar drywydd materion sy'n peri pryder. Rydym wedi gallu ymateb yn gyflym ac yn hyblyg pan fu gwneud hynny o fudd y cyhoedd. Er enghraifft, rydym wedi gwneud gwaith ar Ffordd Liniaru'r M4, yn ogystal â Covid-19.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i wneud gwaith dan arweiniad y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd i ategu gwaith craidd y Pwyllgor sy'n deillio o ganfyddiadau archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Sesiynau preifat

**13.** O bryd i'w gilydd, mae angen i'r Pwyllgor graffu ar faterion na ellir eu datgelu'n gyhoeddus. Fel arfer, mae hyn yn digwydd pan fydd rhwystrau i ddatgeliad cyhoeddus, megis sensitifrwydd masnachol, neu pan godir pryderon gyda'r Pwyllgor am faterion sensitif nad ydynt ar gofnod cyhoeddus.

**14.** Yn ystod y Bumed Senedd, roeddem yn pryderu y byddai'r risg o dorri cytundebau hyder masnachol a chyfrinachedd yn ei gwneud yn anodd i ni fesur pa mor dda y caiff arian trethdalwyr ei wario mewn meysydd penodol.

**15.** Er enghraifft, roeddem am archwilio manylion cyllid ar gyfer busnesau roedd Llywodraeth Cymru yn eu dal yn ôl oherwydd y barnwyd bod y wybodaeth yn fasnachol sensitif, gan gynnwys cymorth ariannol i Aston Martin pan agorodd ffatri ym Mro Morgannwg.

**16.** Roeddem am wybod a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig unrhyw gymorth ariannol[4], mewn perthynas ag unrhyw gwmni arall, yn debyg i'r cymorth a ymrwymwyd i Aston Martin. Dywedwyd wrthym nad oedd y cwmnïau dan sylw

[4] Gelwir y math hwn o gyllid yn warant, yn brif brydles neu'n rhwymedigaeth ddigwyddiadol arall

am i fanylion llawn y trefniadau gael eu cyhoeddi gan yr ystyriwyd eu bod yn fasnachol sensitif.

**17.** Fodd bynnag, cytunodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i arwain swyddogion yn briffio'r Pwyllgor ar y trefniadau hyn mewn sesiwn breifat. Roedd hyn yn ein galluogi i gael mwy o eglurder ar y symiau dan sylw a sut y rhoddir cyfrif am y gwarantau hyn.

**18.** Mater arwyddocaol arall y gwnaethom dynnu sylw ato oedd y defnydd gan sefydliadau cyhoeddus o gymalau 'cau ceg' mewn cytundebau setliad pan fo unigolion yn gadael sefydliadau o'r fath. Yn sgil hyn, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at holl gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru i'w hatgoffa na ddylai'r cytundebau hyn fod yn fater o drefn, ac y dylid gwneud pob ymdrech i gael datgeliad llawn; pan fo angen defnydd o gytundebau o'r fath ar gyngor cyfreithiol, y ceir cyngor cyfreithiol i sicrhau y gwneir datgeliadau cyn belled â phosibl; ac yn yr un modd â'r mater ar rwymedigaethau digwyddiadol, os oes rhesymau dros beidio â datgelu, y dylid trafod y rhain â'r Pwyllgor yn breifat.[5]

**19.** Yn ystod y Bumed Senedd, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau preifat fel y rhain. Maent yn eithriad, yn hytrach na'r peth arferol ac maent yn effeithiol wrth ein galluogi i arfer ein rôl graffu'n llawn. Mae'r dull gweithredu ymarferol a synhwyrol hwn wedi meithrin perthynas adeiladol rhyngom a Llywodraeth Cymru.

## Gweithio o bell

**20.** Fel pwyllgorau eraill y Senedd, gwnaethom fabwysiadu trefniadau gweithio o bell mewn ymateb i'r pandemig. Rhoddodd newid i gyfarfodydd pwyllgor rhithwir gyfleoedd i ni gyrraedd rhanddeiliaid yn fwy effeithiol drwy leihau rhwystrau i gymryd rhan megis cyfyngiadau daearyddol neu amser.

**21.** Gwnaethom gynnal digwyddiad rhithwir i randdeiliaid ym mis Hydref 2020 fel rhan o'n hymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad, ac roeddem yn falch o ymgysylltu â rhai sefydliadau a chyrff cyhoeddus sydd wedi'i chael yn anoddach cyfrannu i'n hymchwiliadau yn y gorffennol. Gwnaeth llawer o gyfranogwyr sylwadau cadarnhaol bod y digwyddiad yn fwy hygyrch.

**22.** Hefyd, gwnaethom fyfyrio ar sut yr ymddengys fod cyfarfodydd rhithwir yn cefnogi gwaith amhleidiol yn well gan y gall y trefniadau eistedd ffisegol yn

[5] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yng Nghymru, 13 Medi 2019

ystafelloedd cyfarfod y Pwyllgor fod yn wrthwynebus (er enghraifft, pan fo gwrthbleidiau'n eistedd yn wynebu ei gilydd). Mae'n ymddangos bod cyfarfodydd rhithwir yn wastatäwr da ac yn arwain at drafodaethau mwy adeiladol a chydlynol. Rydym yn edrych ymlaen at y Chweched Senedd a phosibilrwydd mwy o gyfarfodydd rhithwir neu hybrid o ystyried y buddion y gall hyn eu cynnig i ffyrdd y Pwyllgor o weithio.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cael yr hyblygrwydd i gyfarfod yn rhithwir neu mewn fformat hybrid fel sy'n briodol yn ei farn ef.

## Cyfrannu i raglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru

**23.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus '[g]yflwyno sylwadau i'r Archwilydd Cyffredinol o dro i dro ar sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau i gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd'.[6] Yn yr un modd, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth i ystyried barn y Pwyllgor wrth benderfynu sut i arfer rhai o'i swyddogaethau.

**24.** Mae effeithiolrwydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dibynnu ar arbenigedd Archwilio Cymru wrth ein cynghori ynghylch pa feysydd gwaith y dylem eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar ganfyddiadau ei archwiliadau.

**25.** Yn yr un modd, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus effeithiol yn cymryd rhan weithredol wrth gyfrannu i raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hyn wedi galluogi Archwilio Cymru i ystyried materion sy'n berthnasol i Aelodau o'r Senedd a'u hetholwyr, cyn dod i benderfyniad annibynnol.

**26.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn paratoi rhaglen waith dreigl sy'n cwmpasu ei astudiaethau cenedlaethol ac yna bydd hyn yn destun ymgynghoriad.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn cymryd rhan weithredol wrth gyfrannu i raglenni gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru i sicrhau y caiff blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd eu hadlewyrchu yn archwiliadau Archwilio Cymru.

[6] Senedd Cymru, 'Rheolau Sefydlog Senedd Cymru', Rheol Sefydlog 18.2, a welwyd ar 4 Mawrth 2021

# Ymatebion Llywodraeth Cymru

## Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru

**27.** Ddechrau'r Pumed Cynulliad, datblygodd Llywodraeth Cymru brotocol ar gyfer ymateb i argymhellion yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae hyn yn golygu y gall y Pwyllgor ystyried yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru pan gytunwn ar flaenoriaethau ein blaenraglen waith.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o fewn 15 diwrnod gwaith, er mwyn llywio penderfyniadau'r Pwyllgor ynghylch sut i flaenoriaethu ei waith, yn unol â'r protocol presennol.

## Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor

**28.** Yn dilyn ymatebion Llywodraeth Cymru i nifer o ymchwiliadau'r Pwyllgor, ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2017, ynghylch dull o *dderbyn* argymhellion y Pwyllgor *yn rhannol*. Wedi ystyried, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i'r arfer o dderbyn egwyddorion yn rhannol/derbyn egwyddorion mewn egwyddor.

**29.** Mae defnyddio dull naill ai derbyn neu wrthod yn rhoi eglurder llawer gwell i'r Pwyllgor ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i argymhellion.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i argymhellion ein Pwyllgor olynol drwy nodi naill ai 'derbyn' neu 'gwrthod'.

# 2. Ymgysylltu â phobl Cymru a'r tu hwnt

**30.** Un o amcanion y Senedd yw ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo gwaith y Senedd. Yn ystod y Bumed Senedd, rydym wedi ymdrechu i ymgysylltu â'r cyhoedd yn strategol yn ein gwaith drwy ddulliau amrywiol.

## Ymweliadau safle

**31.** Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o ymweliadau safle i ategu ein hymchwiliadau. Gwnaethom ymweld â Chymdeithas Tai Pobl yng Nghasnewydd fel rhan o'n gwaith ar yr ymchwiliad i reoleiddio cymdeithasau tai. Ar wahân i edrych ar ddatblygiad newydd, sef Pentref Gardd Loftus, gwelodd yr Aelodau enghraifft o adfywio tai. Cyfarfu'r Aelodau hefyd â thenantiaid a oedd yn gallu trafod nodau'r ymchwiliad a chawsant awgrymiadau i helpu gyda'r argymhellion.

**32.** Bydd y Pwyllgor yn lansio ei adroddiad ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd. Roedd yr Aelodau'n gallu gweld prydau bwyd yn cael eu gweini, siarad â chleifion am eu profiadau o fwyd ysbyty ac ymarferwyr am bwysigrwydd maeth a hydradu i gleifion.

**33.** Fel rhan o'n hymchwiliad i reoli meddyginiaethau, aethom ar ymweliadau â nifer o bractisau cyffredinol a fferyllfeydd. Cawsom ddirnadaethau i dechnolegau newydd ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau a thrafod ag ymarferwyr am bwysigrwydd cydweithredu rhwng ymarferwyr cyffredinol, fferyllwyr ac ysbytai.

**34.** Yn yr un modd, fel rhan o'n hymchwiliad i wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau, aethom i Ysbyty Maelor Wrecsam ac i nifer o gyfleusterau sy'n cynnig gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol trafod, yn uniongyrchol â chlinigwyr ac ymarferwyr eraill y materion roeddent yn teimlo eu bod yn bwysig a bod angen mynd i'r afael â hwy. Roeddem yn gallu gweld yn uniongyrchol y pwysau y mae gwasanaethau y tu allan i oriau yn eu hwynebu, yn enwedig yn ystod ein hymweliadau â'r canolfannau galwadau y tu allan i oriau.

**35.** Ymwelwyd â nifer o sefydliadau addysgol, gan gynnwys rhai cynradd ac uwchradd a choleg fel rhan o'n hymchwiliad i Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Rhoddodd yr ymweliadau hyn ddirnadaethau ymarferol i ni o'r cyfleusterau a ddarperir i'r dysgwr modern.

## Digwyddiadau i randdeiliaid

**36.** Mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddechrau nifer o ymchwiliadau i helpu i lywio ein gwaith a nodi trywyddau holi. Roedd y rhain yn cynnwys ein gwaith ar drefn reoleiddio cymdeithasau tai; plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal; effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a'r rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

**37.** Gwnaethom gynnal confensiwn ym mis Gorffennaf 2019, ar wrth-dwyll yn y sector cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau gwrth-dwyll yn sector cyhoeddus Cymru, ym mis Mehefin 2019. Ymhlith y siaradwyr roedd y Pennaeth Gwrth-Dwyll, Llywodraeth Cymru, ynghyd â chynrychiolwyr o GIG Cymru, awdurdodau lleol a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

**38.** Roeddem yn awyddus i glywed gan gynifer o gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid â phosibl yn ystod ein hymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid oeddem yn gallu cynnal gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig. Gwnaethom gynnal yr ymchwiliad cyfan yn rhithwir, gan gynnwys lansio'r ymchwiliad gyda digwyddiad rhanddeiliaid ar-lein. Daeth y digwyddiad, a gynhaliwyd ar Zoom, ag oddeutu 40 o sefydliadau gwahanol ynghyd, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, elusennau, sefydliadau ymbarél y sector preifat, ac undebau llafur. Gwnaethom ddefnyddio adnoddau digidol i gasglu tystiolaeth: arolygon digidol a sylwadau a wnaed drwy gyfleuster sgwrsio Zoom, ochr yn ochr â thrafodaeth grwpiau bach a mawr.

**39.** Roeddem yn falch o'r ymateb cadarnhaol i'r digwyddiad, a nifer y rhanddeiliaid o bob cwr o'r wlad a oedd yn bresennol. Gwnaeth y digwyddiad, a'r gwaith casglu tystiolaeth dilynol drwy gydol yr ymchwiliad, ein galluogi i estyn allan at fwy o gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid nag a fyddai wedi bod yn bosibl gyda gwaith ymgysylltu traddodiadol, wyneb yn wyneb.

## Ymgysylltu â phobl ifanc

**40.** Rydym wedi bod yn ymrwymo i gynrychioli pobl ifanc Cymru ac wedi defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc yn ein gwaith.

**41.** Fel rhan o'n hymchwiliad a oedd yn edrych ar wasanaethau cyhoeddus plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gwnaethom gynnal cyfarfodydd grwpiau ffocws â phobl ifanc a chymryd tystiolaeth, yn breifat, gan bobl ifanc a oedd wedi bod drwy'r system ofal.

**42.** Roeddem yn arbennig o awyddus clywed gan bobl ifanc yn ystod ein hymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bwriad polisi'r Ddeddf yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn modd sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gwnaethom estyn allan at golegau, ysgolion a grwpiau ieuenctid i gael gwybod gan bobl ifanc beth oedd y rhwystrau i ddatblygu cynaliadwy yn eu barn hwy.

**43.** Yn anffodus, cynhaliwyd ein hymchwiliad yn ystod ail a thrydedd don pandemig Covid-19. Roedd sefydliadau addysg ar gau'n ffisegol am rywfaint o'n cyfnod ymgynghori, neu'r cyfan ohono. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr dau ddarparwr addysg yn gallu ymgysylltu â'n hymchwiliad. Roedd eu tiwtoriaid yn defnyddio'r cynlluniau gwersi a'r deunyddiau trafod a ddarparwyd gennym fel fframwaith ar gyfer dadl am y Ddeddf. Cyfrannodd y cyflwyniadau a gawsom gan y myfyrwyr yn uniongyrchol i'n hadroddiad terfynol.

**44.** Yn dilyn cyflwyniad myfyrwyr o Gampws Crosskeys Coleg Gwent, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn bresennol mewn seminar rithwir gyda hwy i siarad am yr ymchwiliad ac ateb eu cwestiynau am y Ddeddf, gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Senedd.

## Gwaith ymgysylltu digidol

**45.** Mae'r Senedd gyfan wedi croesawu ymgysylltu digidol fel ffordd effeithiol o estyn allan at lawer o bobl ar draws Cymru. Mae'r un peth yn wir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**46.** Mae natur ein gwaith yn golygu nad yw ein hymhcwiliadau bob amser yn addas ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd mor aml â phwyllgorau polisi'r Senedd. Fodd bynnag, pryd bynnag y gwnânt, rydym yn defnyddio llwyfannau digidol i estyn allan at gynifer o bobl â phosibl. Nodir rhai uchafbwyntiau isod.

### Eich Cymru chi

**47.** Lansiwyd ymchwiliad gennym i reoli gwastraff yng Nghymru mewn ymateb i dri adroddiad yn ymwneud â rheoli gwastraff a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Nod yr ymchwiliad oedd casglu barn y cyhoedd am gyflwr gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu presennol ar draws Cymru ac archwilio gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol.

**48.** Roeddem am glywed gan aelodau o'r cyhoedd ar draws Cymru a gwnaethom ddefnyddio llwyfan dwyieithog ar-lein newydd, sef Eich Cymru Chi/Your Wales, i gael gwybod eu barn am eu profiadau o 'ddiwrnod biniau'.

Lluniwyd arolwg traddodiadol a map rhyngweithiol gan y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a denodd y llwyfan ar-lein **3,350 o drawiadau**.

**49.** Cyfrannodd canfyddiadau'r gwaith hwn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, sef 'Mwy Nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti', a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2020. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth newydd, sef 'Mwy Nag Ailgylchu' ar 2 Mawrth 2021.[7]

### Dialogue

**50.** Yn 2019, gwnaethom ddefnyddio adnodd ar-lein o'r enw 'Dialogue' i fesur barn am gymorth Llywodraeth Cymru i fusnes. Roeddem am glywed mwy am brofiadau pobl o gael mynediad at gymorth ac ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael. Roedd yr ap yn galluogi defnyddwyr i greu syniadau a materion i'w trafod ag eraill a chawsom ddirnadaethau i'r heriau y mae perchnogion busnesau bach yn eu hwynebu.

### Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

**51.** Rydym wedi datblygu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o ymgysylltu â phobl Cymru yn ystod y Bumed Senedd. Yn benodol, rydym wedi datblygu ein cynnwys Twitter i roi cyhoeddusrwydd i waith y Pwyllgor, y meysydd holi tebygol i dystion ac i grynhoi prif bwyntiau trafod o sesiynau tystiolaeth. Mae hyn wedi bod yn ffordd hanfodol i ni sefydlu cyfathrebu dwyffordd â rhanddeiliaid a'r cyhoedd pan fo hynny'n bosibl.

**52.** Roedd gwaith ymgysylltu digidol yn arbennig o drwm yn ein hymchwiliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwnaethom ddefnyddio Twitter i roi gwybodaeth i randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb am y dystiolaeth roeddem yn ei chymryd a chan bwy. Gwnaethom gynnal arolygon ar-lein i gasglu tystiolaeth pan oedd ar goll o'n hymgyngoriadau ysgrifenedig a'n hymarferion casglu tystiolaeth lafar, a hyrwyddwyd gennym ar Twitter a Facebook. Roedd cyfryngau cymdeithasol yn adnodd pwysig i ni olrhain ein hymchwiliad a chysylltu ein gwaith â materion gwleidyddol berthnasol, megis adferiad o Covid-19 ac ymateb Cymru i ymadawiad Prydain â'r UE.

## Prif areithiau

**53.** Gwnaeth y Cadeirydd nifer o brif areithiau yn ystod tymor y Senedd hon. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys Cynhadledd Flynyddol Cartrefi Cymunedol Cymru

[7] Strategaeth Llywodraeth Cymru: Mwy Nag Ailgylchu, 2 Mawrth 2021

2017 fel ymateb uniongyrchol i waith y Pwyllgor ar gymdeithasau tai; Cynhadledd Finance for the Future; Cymdeithas Trysoryddion Cymru, cynhadledd Swyddfa Archwilio Cymru; cyfnewidfa arfer da ag awdurdodau lleol; CIPFA; a sesiwn holi ac ateb gyda myfyrwyr gwleidyddiaeth yng Ngholeg Gwent.

## Rhannu ein gwaith ar draws Cymru a'r tu hwnt

**54.** Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi bod yn hyrwyddwyr ymrwymedig i'n henw da fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gwahanol a blaengar y gall eraill ddysgu ohono. Rydym wedi ymdrechu i ryngweithio a dysgu gan eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

### Gweithio gyda seneddau eraill y DU

**55.** Ym mis Medi 2017, gwnaethom gynnal cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Rhanddeiliaid y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a'i nod oedd hwyluso fforwm addysgiadol a chynhwysol ar gyfer rhannu arferion da mewn perthynas â gwaith Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Cynrychiolwyd cydweithwyr o'r swyddfeydd archwilio perthnasol, yn ogystal ag awdurdodau lleol Cymru, academyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru.

**56.** Dechreuodd y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Margaret Hodge AS, cyn-Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan, y cyfarfod gyda phrif araith, sef ar 'Beth sy'n gwneud Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus effeithiol?' Ymhlith y siaradwyr eraill roedd y cyn-Aelod Seneddol, y Gwir Anrhydeddus Caroline Flint, archwilydd, darlithydd cyfrifeg yn Ysgol Fusnes Prifysgol Ulster a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ac, ar wahân i 2020 oherwydd y pandemig, mae deddfwrfa wahanol wedi bod yn cynnal cyfarfod y rhwydwaith bob blwyddyn.

**57.** Rydym hefyd wedi bod yn awyddus i gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r ffordd rydym yn gweithio ac, yn 2018, gwnaethom wahodd Richard Bacon AS, cyn Is-gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, i gyfarfod â ni i drafod ein ffyrdd o weithio a rhannu arferion da. Gwnaethom drafod materion fel gweithio'n gydsyniol fel pwyllgor a holi tystion yn effeithiol.

### Gwaith ymgysylltu rhyngwladol

**58.** Yn ystod y Bumed Senedd rydym wedi bod yn ymwneud yn rheolaidd â gwaith sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi'r Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus a rhannu arferion da'n rhyngwladol. Yn bennaf, gwnaed y gwaith hwn drwy

Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ond rydym hefyd wedi gweithio gyda Sefydliad Democratiaeth San Steffan ac Ysgol Fusnes Caerdydd.

**59.** Gwnaethom groesawu dirprwyaethau o Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Bermwda ac Armenia, ynghyd â chyfrannu i weithdai gyda Phwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Anguilla a rhanbarth ehangach y Caribî. Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom groesawu dirprwyaeth o Swyddfa Archwilio Dinesig Sianghai.

**60.** Cynhelir Prosiect Goruchwylio Ariannol Tiriogaethau Tramor y DU gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ac rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o weithdai a chynadleddau a chyfrannu iddynt. Yn ddiweddaraf, roedd hyn yn cynnwys trafod y dull o graffu yn ystod pandemig Covid-19 ac effaith gweithio o bell.

**61.** Ymgymerodd ein Clerc â gwaith am bythefnos i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus St Helena yn 2018 i helpu'r Aelodau i adolygu eu prosesau gwaith, a darparu cymorth a gwybodaeth am rôl a chylch gwaith y Pwyllgor i ystod ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys y Llefarydd a'r Cyngor Deddfwriaethol.

**62.** Ym mis Mawrth 2021, derbyniwyd ein cais i ymuno â Chymdeithas Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus y Gymanwlad ac rydym yn gobeithio y bydd ein Pwyllgor olynol yn mynd ati i ymgysylltu â'r fforwm hwn.

## Edrych at y Chweched Senedd

**63.** Weithiau, gall gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymddangos yn dechnegol neu'n anhygyrch. Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb i wneud ein gwaith mor glir ac mor ymgysylltiol â phosibl i sicrhau'r cyhoedd bod y llywodraeth yn cael ei dwyn i gyfrif am y modd y mae'n gwario arian cyhoeddus. Mae'n rhaid i'n Pwyllgor olynol barhau i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo ymgysylltu â'r cyhoedd.

**64.** Rydym wedi elwa ar weithio ochr yn ochr â Phwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus ac Archwilio ar draws y DU a'r tu hwnt. Mae cyfleoedd i ddysgu o ddeddfwrfeydd eraill, a rhannu ein harferion da â hwy, yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'n gweithgarwch ymgysylltu ehangach.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a chydweithwyr seneddol ar draws y DU a'r tu hwnt i hyrwyddo, cefnogi a gwella gwaith y Pwyllgor.

# 3. Cael effaith

**65.** Yn ystod y Bumed Senedd, rydym wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau a gwneud llawer o argymhellion i geisio sbarduno gwelliant a pherfformiad o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwariant cyhoeddus. Wrth i'r Senedd hon ddod i ben, buom yn trafod effaith ein gwaith â Swyddogion Llywodraeth Cymru.

**66.** Pwysleisiodd rhywfaint o'r adborth a gawsom werth ein trosolwg ar draws ehangder gweithgareddau Llywodraeth Cymru, sy'n golygu ein bod yn gallu nodi themâu cyffredin. Er enghraifft, mewn perthynas â Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, rydym wedi gallu gwneud y cysylltiadau rhwng cadw cofnodion a thryloywdeb yn y modd y mae'r Grŵp yn gweithredu.[8]

**67.** Yn yr un modd, mae Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar y gwerth ychwanegol o'n hymchwiliadau i faterion parhaus busnes y llywodraeth. Er enghraifft, roedd ein gwaith ar bandemig Covid-19 wedi helpu i roi mwy o fomentwm a her y tu ôl i'r gwaith roedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar yr ymateb i'r coronafeirws.[9]

**68.** Gwnaeth ein hymchwiliad i'r Rhaglen Cefnogi Pobl hefyd lywio'r newidiadau i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru fel y gwnaeth ein gwaith ar raglen ysgolion yr 21ain ganrif, pan ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i'n her ar deithio llesol a dylunio.[10]

**69.** Rydym wedi bod yn falch bod y rhan fwyaf o'n hargymhellion wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru ac wedi arwain at newidiadau gweithredol a gwella darpariaeth ehangach o wasanaethau. Nodir rhai uchafbwyntiau eraill isod lle rydym wedi cael effaith.

## Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

**70.** Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom gyhoeddi adroddiad beirniadol ar y modd y triniwyd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Stiwdios Pinewood[11]. Nododd ein hadroddiad gyfres o wallau a arweiniodd at wastraffu miliynau o bunnoedd o

---

[8] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraffau 21 - 22

[9] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 284

[10] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 288

[11] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, Chwefror 2019

arian cyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys gwrthdaro buddiannau, peidio â chymhwyso TAW i'r costau nawdd a gwendidau ar y prosesau ar gyfer cael arolygon ar eiddo sy'n cael ei brynu.

**71.** Gwnaethom fynegi pryder bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gontract nad oedd yn eglur o ran trefniadau gweithredu a chytundeb cydweithredol nad oedd yn egluro'n fanwl rolau a chyfrifoldebau pob partner.

**72.** O ganlyniad i'n hadroddiad, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i'r canllawiau a roddir i swyddogion ar nodi gwrthdaro buddiannau a'i reoli'n effeithiol.[12] Roedd ystyried goblygiadau TAW hefyd wedi'i ymgorffori yn y broses ar gyfer rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

**73.** Gwnaed gwelliannau hefyd i'r ffordd y rheolir contractau gyda Llywodraeth Cymru yn cytuno i sicrhau, pan fyddai angen cytundebau contract pwrpasol yn y dyfodol, y byddai'r berthynas rhwng y partïon yn cael ei diffinio'n glir. Byddai cyngor proffesiynol ychwanegol hefyd yn cael ei geisio i sicrhau bod yr asesiad trylwyr fel yr argymhellwyd gennym yn cael ei gymhwyso.

**74.** Hefyd, derbyniwyd ein hargymhellion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn trin arolygon strwythurol o eiddo a thir y mae'n eu prynu. Arweiniodd hyn at wneud newidiadau i'r ffordd y mae tîm eiddo Llywodraeth Cymru yn gweithredu.

## Trefn reoleiddio cymdeithasau tai

**75.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i drefn reoleiddio cymdeithasau tai a chyflwynodd adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Awst 2017.[13] Clywsom gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, a chafodd ein hadroddiad ei groesawu gan y sector. Adroddwyd ar yr ymchwiliad mewn nifer o gylchgronau a chyfnodolion tai proffil uchel, gan gynnwys Inside Housing a oedd yn cynnwys sylwadau'n rheolaidd ar ein sesiynau tystiolaeth a'n hymchwiliad.

**76.** O ganlyniad uniongyrchol i'n gwaith, roeddem yn falch bod ail-dalu tâl uwch reolwyr yn y sector tai yng Nghymru bellach yn cael ei gyflwyno mewn un lle

---

[12] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

[13] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai, Awst 2017

mewn Adroddiad Tryloywder Tâl blynyddol.[14] Roedd hyn yn dilyn un o'n hargymhellion i greu mwy o dryloywder a didwylledd yn y sector.

**77.** Gwnaethom hefyd argymell bod Llywodraeth Cymru yn trefnu bod setiau data clir a chymaradwy ar gael i helpu tenantiaid i bennu a herio safbwynt a pholisïau eu cymdeithas dai. Gweithredodd Llywodraeth Cymru hyn hefyd ac, erbyn hyn, ceir teclyn cymharu ar wefan Llywodraeth Cymru.[15]

## Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

**78.** Ym mis Tachwedd 2018, gwnaethom gynnal ymchwiliad yn edrych ar wasanaethau cyhoeddus plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal (sy'n 'derbyn gofal', neu wedi 'derbyn gofal', gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014).

**79.** Nododd y Pwyllgor y pedwar maes a ganlyn i'w harchwilio yn ystod yr ymchwiliad:

- gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal
- trefniadau rhianta corfforaethol awdurdodau lleol;
- trefniadau o ran lleoliadau gofal;
- y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

**80.** Yn dilyn y cytundeb, ond cyn cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2018[16], gwnaeth y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn yn ymwneud â gwella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal.[17] Nododd datganiad y Gweinidog rai o'r canlyniadau a gyflawnodd Llywodraeth Cymru a dyrannu £15 miliwn o gyllid ar gyfer lleihau'r angen i blant fynd i mewn i'r system ofal.

---

[14] Adroddiadau Tryloywder Tâl, ar gael ar wefan Cartrefi Cymunedol Cymru, a welwyd ar 8 Mawrth 2021

[15] Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cymharu eich cymdeithas dai, a welwyd ar 9 Mawrth 2021

[16] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, Tachwedd 2018

[17] Datganiad Llafar Llywodraeth Cymru: Gwella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Mewn i Ofal, a Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog, 13 Tachwedd 2018, a welwyd ar 8 Mawrth 2021

## Systemau gwybodeg GIG Cymru

**81.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad i systemau gwybodeg GIG Cymru yn ystod hydref 2018 ac adrodd ar fethiannau difrifol wrth weithredu'r systemau.[18] Roedd y rhain yn cynnwys llu o broblemau gyda systemau TG camweithredol sydd wedi dyddio; llinellau atebolrwydd aneglur; a chlinigwyr yn cael trafferth gyda systemau TG 'hynafol a bregus'.

**82.** Gwnaethom alw am ailfeddwl radical o ran dull gweithredu gwybodeg Llywodraeth Cymru yn GIG Cymru ac am fyfyrio mewn modd agored a gonest ar y sefyllfa bresennol. Roedd hyn yn cynnwys y rhwystrau i symud ymlaen a chydnabod maint a dyfnder y problemau gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**83.** Ym mis Medi 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru bum argymhelliad y Pwyllgor a rhoi adnoddau a newidiadau ymarferol ar waith sy'n ofynnol i wella gwybodeg, gan gynnwys:

- lansio 'Cymru Iachach' gyda chynyddu'r pwyslais ar faterion digidol ar gyfer y dyfodol ac ymrwymiad i gynyddu cyllid yn y maes hwn;
- comisiynwyd adolygiad o lywodraethu gwybodeg a byddai'n darparu adolygiad o arweinyddiaeth ddigidol a rheoli system gwybodeg yng nghyd-destun tîm ehangach y GIG yng Nghymru, gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau;
- £50 miliwn ychwanegol i'w wario ar gymorth a chyflymu cyflwyno portffolio o raglenni trawsnewidiol.

**84.** Wrth gyhoeddi camau nesaf allweddol ar gyfer gofal iechyd digidol yng Nghymru, cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwaith a wnaeth y Pwyllgor hwn ar Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a sut y cafodd y penderfyniadau hyn eu llywio gan waith y Pwyllgor.[19]

**85.** Rydym yn trafod diweddariadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y mater hwn a'r cwmpas i'w drafod ymhellach gan ein Pwyllgor olynol yn y bennod nesaf.

---

[18] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Systemau Gwybodeg GIG Cymru, Tachwedd 2018

[19] Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Iechyd a Gofal Digidol, 30 Medi 2019, a welwyd ar 8 Mawrth 2021

# 4. Y pum blaenoriaeth uchaf i'n Pwyllgor olynol

**86.** Isod, rydym yn nodi pum maes blaenoriaeth rydym yn awgrymu bod ein Pwyllgor olynol yn canolbwyntio arnynt ddechrau'r Chweched Senedd:

- Canlyniadau uniongyrchol pandemig Covid-19;
- Cymorth ariannol i fusnes;
- Maes Awyr Caerdydd;
- Caffael cyhoeddus;
- Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

**87.** Yn anochel, bydd Covid-19 ac ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio ar yr holl waith hwn. Mae'r meysydd hyn yn hanfodol bwysig o gofio effaith bosibl Brexit ar Lywodraeth Cymru a maint y gwariant sy'n deillio o ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19.

## Canlyniadau uniongyrchol pandemig Covid-19

**88.** Gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth annibynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2020 i'n galluogi i'w dwyn i gyfrif ar ei hymateb cychwynnol i bandemig Covid-19. Hefyd, gwnaethom gynnal sesiwn debyg gyda Chomisiwn y Senedd. Serch hynny, fel mater o bryder parhaus, nid oedd yn briodol i'r Pwyllgor hwn drafod ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19 yn fanwl a bydd gwaith sylweddol i'w wneud wrth werthuso'r ymateb hwn yn ystod y cyfnod adfer ar ôl Covid-19.

### Profi, Olrhain, Diogelu (POD)

**89.** Nod strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) Llywodraeth Cymru oedd 'gwella gwyliadwriaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth a chefnogi pobl i hunanynysu pan fo angen'. Dyma'r trydydd o ddull tri philer Llywodraeth Cymru o arwain Cymru allan o bandemig y Coronafeirws.[20]

[20] Llywodraeth Cymru, 'Profi Olrhain Diogelu', 4 Mehefin 2020, a welwyd ar 5 Mawrth 2021

**90.** Mae rhaglen POD Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnal gan dimau olrhain cysylltiadau rhanbarthol awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.[21]

**91.** Fel rhan o gorff o waith yn craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, dylai ein Pwyllgor olynol ganolbwyntio ar werth am arian ei strategaeth POD. Dylai'r gwaith hwn ddefnyddio trosolwg yr Archwilydd Cyffredinol o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

## Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)

**92.** Er mwyn ategu ei hymateb i argyfwng Covid-19, gwnaeth Llywodraeth Cymru ei gwaith caffael ei hun ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (CDP), ochr yn ochr â chymryd rhan mewn cynlluniau caffael ledled y DU.[22]

**93.** Ar 14 Medi 2020, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod mwy na 330 miliwn o eitemau CDP eisoes wedi'u dosbarthu i wasanaethau cyhoeddus Cymru i helpu'r Llywodraeth i fodloni gofynion Covid-19.[23] Hefyd, clywsom eu bod wedi cyrraedd sefyllfa lle mae ganddynt gadwyni cyflenwi ar draws Cymru, a hynny er gwaethaf dechrau gyda sylfaen weddol isel.[24]

**94.** Ar yr un pryd, roedd etholwyr a oedd wedi cynnig cyflenwi CDP i Lywodraeth Cymru, ond heb gael ymateb neu pan oedd ymateb wedi cymryd amser hir i gyrraedd, yn mynd at Aelodau o'r Senedd.

**95.** Disgwylir i adroddiad llawn yr Archwilydd Cyffredinol ar waith caffael a chyflenwi CDP Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig gael ei gyhoeddi ddechrau mis Ebrill 2021. O ystyried costau prynu, creu cadwyni cyflenwi yn gyflym, a pherthnasoedd masnachol sydd newydd eu sefydlu â chyflenwyr CDP, rydym yn annog ein Pwyllgor olynol i drafod gwerth am arian dull Llywodraeth Cymru o gaffael CDP yn ystod pandemig Covid-19.

[21] GIG Cymru, 'Olrhain – Gwybodaeth am Breifatrwydd a Diogelu Data', a welwyd ar 5 Mawrth 2021

[22] Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2020 paragraff 177

[23] Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2020 paragraff 31

[24] Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2020 paragraff 57

## Brechu

**96.** Ar y dechrau, beirniadwyd Llywodraeth Cymru am gyflymder cyflwyno ei rhaglen frechu.[25] Amddiffynnodd y Prif Weinidog ei dull gweithredu, gan ddadlau mai'r peth synhwyrol i'w wneud yw defnyddio'r brechlyn sydd ar gael dros y cyfnod pan fo ar gael fel y gall y system ei amsugno.[26] Er gwaethaf dechrau araf o'i gymharu â chenhedloedd eraill y DU, wedi hynny, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyrraedd y targed cyffredin o gynnig brechiadau i'r pedwar grŵp blaenoriaeth uchaf.

**97.** Adolygodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth frechu ym mis Chwefror 2021.[27] Y garreg filltir nesaf yw cynnig dos cyntaf y brechlyn i bawb yn y 9 grŵp blaenoriaeth uchaf a'r nod yw ei chyrraedd erbyn canol mis Ebrill 2021.[28]

**98.** Mae rhaglen frechu Llywodraeth Cymru yn fater byw, felly nid yw'r Pwyllgor hwn wedi'i drafod yn fanwl. Nodwn y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â darn o waith yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer y rhaglen frechu, a'i hariannu, a sut y mae'n gweithio'n ymarferol. Rydym yn annog ein Pwyllgor olynol i ddefnyddio canfyddiadau'r gwaith hwn ochr yn ochr ag adroddiadau perthnasol eraill i graffu ar raglen frechu Llywodraeth Cymru fel rhan o'i gwaith ehangach ar bandemig Covid-19.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwneud corff o waith sy'n canolbwyntio ar ymateb uniongyrchol Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19, gan ddefnyddio adroddiadau perthnasol Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cymorth ariannol i fusnes

**99.** Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, sef Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau, ym mis Tachwedd 2018.[29] Awgrymwyd yr

[25] Gweler, er enghraifft: BBC, 'Covid vaccine: Wales has delivered 70,000 of 275,000 doses', 10 Ionawr 2021, a welwyd ar 9 Mawrth 2021; ITV, 'First Minister defends intentionally slower vaccine rollout amid criticism', 18 Ionawr 2021, a welwyd ar 9 Mawrth 2021; ac ati.

[26] The Guardian, 'Wales' Covid vaccine rollout criticised as first minister defends delay', 18 Ionawr 2021, a welwyd ar 9 Mawrth 2021

[27] Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth Frechu i Gymru', Chwefror 2021, a welwyd ar 9 Mawrth 2021

[28] Llywodraeth Cymru, 'Diweddariad wythnosol rhaglen frechu Covid-19: 9 Mawrth 2021', 9 Mawrth 2021, a welwyd ar 9 Mawrth 2021

[29] Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau', Tachwedd 2018, a welwyd ar 4 Mawrth 2021

adolygiad hwn gan adroddiadau blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r cyfryngau'n tynnu sylw at enghreifftiau o brosiectau a gafodd gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ond na chyflawnodd y manteision a fwriadwyd.

**100.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad yn nhymor haf 2019, gan ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'n canfyddiadau ym mis Ionawr 2020.[30]

**101.** Roeddem yn bwriadu trafod y mater hwn eto yn haf 2020, ond yn sgil y pandemig, defnyddiwyd y sesiwn i ganolbwyntio ar effaith economaidd Covid-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith craffu hwn yn cynnwys trafod y cymorth ariannol a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru i helpu busnesau yng nghamau cynnar y pandemig.

**102.** Bydd ymadawiad y DU â'r UE a phandemig Covid-19 yn arwain at ganlyniadau sylweddol, hirhoedlog i fusnesau yng Nghymru. Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn adeiladu ar ein gwaith cynnar, gwaith blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol ac yn cynnal ei ymchwiliad ei hun i gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau. Dylai hyn ystyried y cymorth a roddir drwy gydol y pandemig ac wrth iddi ymateb i ganlyniadau perthynas fasnachu newydd y DU â'r UE.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu parhaus ar gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau er mwyn trafod gwerth am arian gwariant cyhoeddus mewn perthynas â'r canlynol:

- yr ymateb uniongyrchol i'r pandemig;
- yr adferiad o'r pandemig;
- cyfnod pontio busnesau i drefniadau masnachu newydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE;
- cymorth parhaus mewn ymateb i'r berthynas fasnachu newydd â'r UE.

## Maes Awyr Caerdydd

**103.** Cyhoeddodd ein Pwyllgor blaenorol ei adroddiad ar Lywodraeth Cymru yn caffael ac yn prynu Maes Awyr Caerdydd ym mis Mawrth 2016. Edrychodd yr ymchwiliad yn benodol ar rôl Llywodraeth Cymru yn y broses gaffael, trefniadau

[30] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru, 10 Ionawr 2020

llywodraethu ar ôl caffael, cynnydd masnachol a datblygiad ehangach a gwireddu buddion y gall y caffaeliad ddod â hwy i economi Cymru.

**104.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan Lywodraeth Cymru sail resymegol glir dros brynu'r maes awyr a bod achos clir dros ymyrryd i helpu i sicrhau newid mewn perchnogaeth. Roedd hyn yn bodloni amcan polisi ehangach Llywodraeth Cymru a oedd yn cydnabod pwysigrwydd strategol y maes awyr i'r economi ehangach.

**105.** Gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ym mis Tachwedd 2016 ac rydym wedi parhau i fonitro cynnydd yn y maes awyr mewn sesiynau tystiolaeth a gohebiaeth yn ystod y Bumed Senedd. Rydym yn cydnabod effaith pandemig Covid-19 ar y diwydiant hedfan ledled y byd, ond rydym yn dal i bryderu am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd. Cytunodd Llywodraeth Cymru, ar 8 Chwefror 2021, i anfon adroddiadau chwemisol ar y sefyllfa bresennol o ran y maes awyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**106.** O ganlyniad i Covid-19, ar 3 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cytuno ar becyn cymorth ariannol i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig. Roedd y pecyn yn cynnwys buddsoddiad grant hyd at £42.6 miliwn, ynghyd â dileu £42.6 miliwn o ddyled y maes awyr.[31] O ystyried y buddsoddiad hwn, ynghyd â'r effaith ar nifer y teithwyr oherwydd y pandemig, ochr yn ochr â buddsoddiadau ariannol blaenorol Llywodraeth Cymru, bydd yn hanfodol i'n Pwyllgor olynol drafod a yw perchnogaeth Llywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd yn cynrychioli gwerth da am arian.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu ar berchnogaeth Llywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd, a'r cymorth ariannol a gynigir iddo, yn sgil pandemig Covid-19, a'r adferiad ohono.

## Caffael cyhoeddus

**107.** Gwnaethom ddechrau ymchwiliad i drefniadau caffael cyhoeddus yng ngwanwyn 2018, ar ôl cyhoeddi dau adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol.[32] Gohiriwyd yr ymchwiliad am gyfnod oherwydd, yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda

[31] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth yn y dyfodol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd', 3 Mawrth 2021, a welwyd ar 5 Mawrth 2021

[32] Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, Caffael Cyhoeddus yng Nghymru (Hydref 2017) a Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (Tachwedd 2017), a welwyd ar 9 Mawrth 2021

Llywodraeth Cymru, y daeth yn hysbys y byddai nifer o'n pryderon yn cael sylw yn yr adolygiad a gynhaliodd y Llywodraeth a'i gwblhau yn hydref 2018.

**108.** Gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariadau ysgrifenedig rheolaidd ar y broses o drosglwyddo'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i uned gontractio genedlaethol lai a sefydlu uned datblygu a gweithredu polisi. Disgwyliwyd i ni gael diweddariad arall yng ngwanwyn 2020, ond gohiriwyd hyn oherwydd Covid-19 i fis Medi 2020.

**109.** Yn yr un modd, fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i drefniadau caffael cyhoeddus, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i ni[33] ar y broses gaffael ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru. Cafwyd nifer o anawsterau gyda'r broses gaffael. Oherwydd hynny, comisiynodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd adolygiad. Gwnaeth canfyddiadau'r adolygiad nifer o argymhellion i gryfhau prosesau mewnol ac roedd swyddogion yn bwrw ymlaen â'r rhain.[34] Roedd un o'r prif feysydd pryder yn ymwneud â dogfennu penderfyniadau rydym yn cyfeirio atynt yn ein hadroddiad, sef Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru.[35] Mae pryderon tebyg wedi bod yn thema ar draws ein gwaith yn ystod y Bumed Senedd.

**110.** Hefyd, cawsom ein hysbysu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ei fod yn gobeithio cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn ac, os na fyddai'n gwneud hynny, y byddai'n ystyried ffyrdd o rannu'r canfyddiadau hyn â'r Pwyllgor.[36]

**111.** Gwnaethom fynd ar drywydd hyn ym mis Chwefror 2021 yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a ddywedodd fod gwaith yn parhau gan dîm Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru i groeswirio adroddiad yr adolygiad terfynol i sicrhau ei fod yn gwbl deg i'r holl bartïon dan sylw, yn enwedig o gofio'r sensitifrwydd mawr ynglŷn ag ef.[37] Cawsom ein sicrhau y byddai copi o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan.[38]

---

[33] Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, 7 Medi 2020

[34] Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Gaffael Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru – Diweddariad, 8 Hydref 2020

[35] Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021, tudalen 43, paragraffau 154 – 156

[36] Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2020, paragraff 154

[37] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 110

[38] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 112

**112.** Yn ein hadroddiad, sef Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru, rydym yn dod i'r casgliad bod ein Pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn ystyried canlyniad yr adolygiad Cymorth Gwaith Cymru o ystyried ein diddordeb tymor hir a'n pryder o ran dogfennu penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu ystyried canlyniad yr adolygiad Cymorth Gwaith Cymru yng nghyd-destun strategaeth gaffael Llywodraeth Cymru.

## Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**113.** Mae'r GIG yng Nghymru yn gwario mwy na £6 biliwn y flwyddyn ac yn cyfrif am bron hanner gwariant refeniw Llywodraeth Cymru. Mewn adroddiadau blaenorol ar gyllid iechyd, ac ar ddarlun gwasanaethau cyhoeddus, mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol bryder ynghylch ffocws tymor byr cynlluniau ariannol ar draws GIG Cymru. Mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol fel Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

**114.** Cyflwynodd y Ddeddf ddwy ddyletswydd newydd ar gyfer y saith bwrdd iechyd yng Nghymru:

- mantoli'r gyllideb dros gyfnod tair blynedd treigl – gan ddisodli'r gofyniad blaenorol i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn;
- cael cynllun integredig tair blynedd sy'n cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

**115.** Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad lefel uchel cynnar o weithrediad y Ddeddf yn 2017 a chytunwyd, wedi hynny, i gynnal ymchwiliad treigl, gan archwilio cyllid yr holl fyrddau iechyd. Yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19, nid oeddem yn gallu cwblhau'r gwaith hwn ond gwnaethom drafod y sefyllfa bresennol, ar y pryd, o ran cyllid y GIG, â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr y GIG ym mis Tachwedd 2020.

**116.** Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn parhau â'r gwaith rydym wedi'i wneud ar gyllid y GIG, yn enwedig o gofio'r gwariant ychwanegol sylweddol yn ystod y pandemig.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu gwaith craffu ar gyllid y GIG o gofio cyd-destun statudol Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ac yn sgil argyfwng Covid-19, ac adferiad ohono.

# 5. Blaenoriaethau tymor canolig i'n Pwyllgor olynol

**117.** Wrth feddwl am flaenoriaethau tymor canolig posibl i'n Pwyllgor olynol, credwn ei bod yn sylfaenol y dylai parhau i sbarduno gwelliannau i adroddiadau ariannol Llywodraeth Cymru fod yn flaenoriaeth strategol sylfaenol ar gyfer gwaith y Pwyllgor hwnnw.

**118.** Yn ein hadroddiad, sef Craffu ar Gyfrifon 2018-19, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr arfer gorau o ran rheoli ariannol, cyllidebu ac adrodd. Gwnaethom ddweud y dylai hyn gynnwys cyhoeddi cynlluniau gwariant dangosol a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau, sicrhau bod cyllidebau wedi'u cysoni ag alldro, cyhoeddi cyfrifon Llywodraeth Gyfan a chynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus sy'n edrych tua'r dyfodol.[39]

**119.** Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn trafod ein hargymhelliad uchod fel man cychwyn ar gyfer mesur perfformiad ariannol Llywodraeth Cymru.

## Craffu ar gyfrifon

**120.** Mae craffu ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus wedi dod yn elfen flynyddol o waith y Pwyllgor. Gwneir hyn yn nhymor yr hydref. Rydym yn craffu ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon detholiad o gyrff cyhoeddus i ystyried sut y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio arian cyhoeddus. Rydym yn dadansoddi eu perfformiad ariannol, dangosyddion perfformiad allweddol, trefniadau llywodraethu a rheoli risg, rheoli'r gweithlu, yr amgylchedd a materion cynaliadwyedd, a materion strategol allweddol eraill.

**121.** Mae'r Pwyllgor bob amser yn trafod adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Yn ogystal, trafodwyd cyfrifon y cyrff a ganlyn yn ystod y Bumed Senedd.

---

[39] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020

| Blwyddyn | Cyrff cyhoeddus y craffwyd arnynt |
|---|---|
| Cyfrifon Blynyddol 2015-16[40] | Gyrfa Cymru<br>ESTYN<br>CCAUC |
| Cyfrifon Blynyddol 2016-17 | Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Chwaraeon Cymru |
| Cyfrifon Blynyddol 2017-18 | Amgueddfa Cymru<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |

**122.** Mae'r Pwyllgor wedi bod yn falch o nodi ymateb y cyrff cyhoeddus i'n gwaith craffu. Yn benodol, rydym yn falch y bu gwelliant o ran hygyrchedd adroddiadau blynyddol y cyrff. Mae rhai sefydliadau wedi ymateb i'r her o gyflwyno'r wybodaeth hon, sydd yn aml yn gymhleth, mewn fformat mwy dealladwy.

**123.** Yn ogystal â'r gwelliannau mwy cyffredinol, rydym wedi dwyn sylw i nifer o feysydd sy'n peri pryder sydd wedi bod yn destun mwy o waith craffu ac, yn y pen draw, wedi arwain at welliant o ran arferion. Hefyd, mae'r rhain wedi denu sylw'r cyfryngau, megis:

- 'Modd osgoi' iawndal £1.25m Llywodraeth Cymru
- National Library of Wales in denial about cuts, AMs warn

**124.** Rydym hefyd wedi ymddiddori'n frwd yn arolygon staff blynyddol Comisiwn y Senedd fel rhan o'n gwaith craffu ar ei adroddiadau blynyddol a'i gyfrifon. Yn ein hadroddiad ar gyfrifon 2019-20, gwnaethom argymell y dylai'r Comisiwn sicrhau bod arolygon staff, yn y dyfodol, yn gyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau y gellir dod i gasgliadau ystyrlon am dueddiadau tymor hir o'u canfyddiadau. Hefyd, gwnaethom argymell y gofynnir cwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnir yn arolygon staff deddfwrfeydd a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn i'r canlyniadau gael eu meincnodi. Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn mynd ar drywydd y maes hwn wrth graffu ar gyfrifon 2020-21 Comisiwn y Senedd.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau â'r gwaith craffu blynyddol ar waith cyfrifon, gan gymryd tystiolaeth gan

[40] Gwnaethom drafod cyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn eu cymhwyso gan yr Archwilydd Cyffredinol fel darn o waith ar wahân. Hefyd, gwnaethom ystyried ei gyfrifon ar gyfer 2017-18, a oedd hefyd wedi'u cymhwyso.

Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd bob blwyddyn a chan gyrff eraill yn gylchol (gan gwmpasu cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus) a myfyrio ar yr ymateb i argymhellion ein gwaith blaenorol.

## Gwrth-dwyll

**125.** Mae'r Pwyllgor wedi ymddiddori'n frwd mewn gwrth-dwyll yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau gwrth-dwyll yn sector cyhoeddus Cymru, ym mis Mehefin 2019. Cyhoeddwyd adroddiad dilynol yn 2020. Rydym yn ymwybodol o'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar fynd i'r afael â thwyll ac edrych tua'r dyfodol, gan gynnwys y risg uwch o dwyll a achosir gan bandemig Covid-19. Bydd hyn yn cyflwyno posibilrwydd heriau newydd i Lywodraeth Cymru wrth sicrhau bod ganddi ddulliau llywodraethu a'r adnoddau i wrthsefyll mathau mwy soffistigedig o dwyll. Awgrymwn y bydd hyn yn elfen bwysig o waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Chweched Senedd a dylai ein Pwyllgor olynol barhau i fonitro dull Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill o wrthsefyll twyll.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn blaenoriaethu trafod a gynyddodd achosion o dwyll yn ystod pandemig Covid-19 a'r camau a gymerodd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i wrthweithio hyn.

## Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

**126.** Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad statudol cyntaf mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mis Mai 2020. Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' ym mis Medi 2020.

**127.** Rhoddodd y Senedd gyfrifoldeb am graffu ar yr adroddiadau hyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. I gydnabod ehangder y Ddeddf a'i goblygiadau pellgyrhaeddol i waith y Senedd gyfan, gwahoddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Aelodau o Bwyllgorau ar draws y Senedd i gyfrannu i'r ymchwiliad. Gwnaethom ddewis canolbwyntio, yn ein hymchwiliad, ar rwystrau i weithredu'r Ddeddf gyda phwyslais ar sut y gellir gwella gweithrediad yn y dyfodol.

**128.** Clywsom gan oddeutu 100 o gyrff cyhoeddus, rhanddeiliaid, academyddion a grwpiau myfyrwyr drwy gydol ein hymchwiliad. Gwnaethom gynnal digwyddiad rhanddeiliaid rhithwir, ymgynghoriad ysgrifenedig, a chlywed tystiolaeth lafar gan naw panel o dystion dros bum cyfarfod Pwyllgor. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym

mis Mawrth 2017 a chafodd ei drafod yn ystod Cyfarfod Llawn olaf y Bumed Senedd, 24 Mawrth 2021.[41] Mae'r Adroddiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Archwilydd Cyffredinol, cyrff cyhoeddus, ac i'r Senedd ei hun.

**129.** Daeth yr ymchwiliad yn arbennig o berthnasol wrth i ni edrych ar yr adferiad o Covid-19. Cafodd cyrff cyhoeddus lawer o brofiadau cadarnhaol i'w rhannu am eu cydweithrediad yn ystod y pandemig. Hefyd, gwnaethom fyfyrio ar faint yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu wrth i gyfnod adfer Covid-19 ddechrau.

**130.** Felly, rydym yn annog ein Pwyllgor olynol i barhau i graffu ar y ddeddfwriaeth arloesol ac uchelgeisiol hon. Rydym yn nodi dwy adeg yn ystod y Chweched Senedd pan ellid gwneud y gwaith hwn. Yn gyntaf, pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cymhwysiad Llywodraeth Cymru o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant (y bwriedir ei gwblhau yn ystod 2021-22). Yn ail, pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyhoeddi eu hail adroddiad statudol yn 2025.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i oruchwylio gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy graffu ar y canlynol:

- ystyriaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o gymhwysiad Llywodraeth Cymru o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant;
- ail adroddiad statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2025.

## Rheoli grantiau yng Nghymru

**131.** Mae materion yn ymwneud â rheoli cyllid grant gan Lywodraeth Cymru wedi ymddangos yn rheolaidd yn ein rhaglen waith ers y Pedwerydd Cynulliad.

**132.** Roedd y meysydd pryder a bwysleisiwyd yn ein gwaith ac mewn adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys trefniadau diwydrwydd dyladwy annigonol, cyfathrebu gwael rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac â chyllidwyr eraill, cyfleoedd i leihau nifer gyffredinol y cynlluniau grant,

[41] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 24 Mawrth 2021

anghysondeb cyffredinol arfer rheoli grantiau, costau gweinyddu a chydymffurfedd â'r cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector.

**133.** Yn ystod ein trafodaeth am Adroddiad Blynyddol 2015 Llywodraeth Cymru ar 23 Chwefror 2016, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, pan ddechreuodd yn ei swydd [ym mis Hydref 2012] y byddai wedi nodi bod y gwaith rheoli grantiau yn amlwg yn wan ac yn peri risg uchel. Hefyd, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd fod ein gwaith craffu ein hunain ar y materion hyn wedi darparu ffocws ar gyfer gwella.

**134.** Gwnaethom groesawu'r adborth hwn gan Lywodraeth Cymru ar ein gwaith, ynghyd â'r gwelliannau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i gryfhau ei rheolaeth ar gyllid grantiau. Fodd bynnag, mae hon yn broses barhaus o wella'n barhaus a bydd angen ei drafod ymhellach yn y dyfodol.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella rheolaeth grantiau, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru a myfyrio ar unrhyw dystiolaeth newydd ar reoli grantiau sy'n codi o waith yr Archwilydd Cyffredinol neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

## Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

**135.** Yn ystod y Senedd hon, gwelsom effeithiau niweidiol tywydd garw ar arfordir Cymru ac, yn ddiweddarach, ar ddyfrffyrdd mewndirol. Pwysleisiodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, fuddsoddiad cyfalaf sylweddol ym maes rheoli peryglon arfordirol dros y blynyddoedd diwethaf a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol newydd gwerth £150 miliwn rhwng 2018-19 a 2020-21. Fodd bynnag, mae newid hinsawdd yn golygu bod rheoli'r risgiau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn gofyn atebion sy'n cael eu harwain gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys buddsoddiad tymor hir. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr yn ystod hydref 2016.

**136.** Cyn pandemig Covid-19, cawsom wybod, ar ôl penderfyniad y Bwrdd Rheoli Risgiau Arfordirol, fod y rhaglen wedi'i hestyn tan fis Mawrth 2022. Fel y cyfryw, nid oeddem yn gallu trafod yr adolygiad canol rhaglen. Pwysleisiodd rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol gynlluniau i fynd ar drywydd y maes hwn.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn ailedrych ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ar ôl cyhoeddi adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

**137.** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr 2018, gwnaethom gynnal ymchwiliad yn cyhoeddi ein hadroddiad ein hunain ym mis Tachwedd 2018.[42] Fel y nodir ym mharagraffau 81 - 82 o'r adroddiad hwn, datgelodd ein gwaith ystod o broblemau difrifol yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**138.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru a derbyn yr holl argymhellion yn ein hadroddiad.[43] Gwnaethom drafod y mater hwn eto ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu ein hargymhellion. Ar y cyfan, roeddem yn falch o nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud a'r ffordd gadarnhaol roedd y gwasanaeth yn symud ymlaen.

**139.** Fodd bynnag, mae gennym bryder o hyd ynghylch yr amserlenni ar gyfer gweithredu rhai gwelliannau, yn enwedig o ran recriwtio'r Prif Swyddog Digidol a sefydlu mandad yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Disgwyliwyd i ni ailedrych ar hyn eto ym mis Tachwedd 2020, ond gwnaethom roi sylw i'r cwestiynau drwy neges ysgrifenedig oherwydd pandemig Covid-19.

**140.** Yn ddealladwy, nid yw cynnydd wedi digwydd fel y bwriadwyd ar nifer o argymhellion yn ein hadroddiad ond rhagwelir y bydd rhagor o welliannau yn cael eu gweithredu dros y flwyddyn nesaf, gyda chymorth mwy o fuddsoddiad a threfniadau cyflenwi, llywodraethu ac arwain newydd.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i gael adroddiadau cynnydd rheolaidd mewn perthynas â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, sef y darpar awdurdod iechyd arbenigol digidol newydd, gan gynnwys manylion am weithredu ein hargymhellion ac a oes angen rhagor o waith craffu.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau

**141.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad i'r maes hwn yn ystod gwanwyn 2019, ar ôl cyhoeddi adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2018. Fel

[42] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Systemau Gwybodeg GIG Cymru, Tachwedd 2018

[43] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru, Rhagfyr 2018

rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth, cynhaliwyd ymweliadau â nifer o gyfleusterau sy'n cynnig gwasanaethau y tu allan i oriau. Gwelsom fod hwn yn wasanaeth dan gryn straen. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i bryderon ynghylch gwasanaethau y tu allan i oriau a bwysleisiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r camau a nododd i fynd i'r afael â'r rhain. Rhoddodd waith amlddisgyblaethol wrth wraidd ei fodel trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol ac yn y gymuned 24/7 y gwnaethom ei groesawu, ynghyd â'r cynlluniau i integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau'n llawn â'r gwasanaeth gofal sylfaenol ehangach.

**142.** Hefyd, roeddem yn teimlo ei bod yn ymddangos bod arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau'n ddiffygiol a gwnaethom groesawu'r datblygiadau a wnaed yn y maes hwn, gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Gofal Brys. Mae gan y grŵp hwn rôl bwysig wrth ddatblygu modelau gofal a sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol, yn ogystal â helpu i sbarduno gwelliannau sydd eu hangen wrth ddarparu ac integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau.

**143.** Gwnaed llawer o gynnydd yn erbyn argymhellion y ddau adroddiad, ynghyd â chyflwyno'r gwasanaeth 111 sy'n parhau i ddatblygu'n dda. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod dwy ardal bwrdd iechyd lle nad yw'r gwasanaeth 111 wedi'i gyflwyno. Mae hyn yn achosi dryswch yn yr ardaloedd hynny, lle mae'r cyhoedd yn gweld y gwasanaeth 111 yn cael ei hyrwyddo'n genedlaethol ar draws Cymru. At hynny, i'r rhai sy'n gorfod defnyddio'r gwasanaeth Galw Iechyd Cymru a ffonio rhif 0845, codir tâl sylweddol a all fod yn rhwystr i gael mynediad at y gwasanaeth.[44]

**144.** Roeddem yn falch o nodi y bu gostyngiad sydyn mewn presenoldeb mewn Adrannau Achosion Brys, a chynnydd mawr yn nifer y galwadau i wasanaeth 111 y GIG a'r defnydd o holiadur symptomau ar-lein Covid-19. Rydym yn croesawu bod y Tîm Rhaglen 111 a'r grŵp Gofal Sylfaenol Brys yn y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol yn cydweithio'n agos i adolygu strategaeth y dyfodol a gweithrediad dros y blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn monitro'r cynnydd a wnaeth y Tîm Rhaglen 111 a'r grŵp Gofal Sylfaenol Brys ar adolygu'r strategaeth a'i gweithredu wedi hynny gyda'r bwriad o ddarparu gofal sylfaenol brys 24/7 cyson.

[44] Cofnod y Trafodion, 1 Medi 2020 paragraff 9

## Trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a materion ehangach sy'n deillio o'n hymchwiliad)

**145.** Dechreuodd ein Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad edrych ar faterion yn ymwneud â llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ym mis Gorffennaf 2013. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor hwnnw adroddiad arall, sef 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr' a ddaeth â thystiolaeth ynghyd o'i waith craffu parhaus yn ystod 2014 a 2015. Gwnaed ystod eang o argymhellion eraill.

**146.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad byr yng ngwanwyn 2019 i ganfod pa wersi a ddysgwyd yn BIPBC ac a oedd angen gwelliannau llywodraethu bwrdd iechyd ehangach. Gwnaethom adrodd ym mis Mai 2019[45] a derbyniodd a gweithredodd Llywodraeth Cymru nifer o'n hargymhellion.[46] Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cyhoeddi datganiadau rheolaidd ar welliannau a wneir yn y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r broses mesurau arbennig.

**147.** Ar 3 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog gymorth strategol ar gyfer BIPBC ac, yn ddiweddarach yr un mis, cyhoeddodd fod BIPBC wedi'i gymryd allan o fesurau arbennig a'i symud i ymyrraeth wedi'i thargedu.[47]

**148.** Wrth i ni gwblhau ein gwaith, clywsom gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod rhai meysydd yn BIPBC lle mae angen cynnydd o hyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.

**149.** Dywedwyd wrthym mai nod y cymorth ariannol strategol a ddarparwyd oedd sicrhau nad yw'r rhagolygon ariannol ar gyfer y sefydliad yn atal rhywfaint o'r meddwl angenrheidiol y mae angen iddo ddigwydd yn BIPBC. Clywsom hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu BIPBC yn y fframwaith

---

[45] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd, Mai 2019

[46] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 'Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd, Gorffennaf 2019

[47] Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Llafar: Cymorth Strategol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 3 Tachwedd 2020

uwchgyfeirio, fel gyda sefydliadau eraill yng Nghymru, ac yn mynd ato mewn modd teg a chyfiawn o ran ei berfformiad parhaus.[48]

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod ein Pwyllgor olynol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y gwelliannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y meysydd a nodwyd fel rhan o'r statws daduwchgyfeirio i ymyrraeth wedi'i thargedu, ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru wrth sicrhau gwelliannau drwy ei Threfniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd.

[48] Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2021, paragraffau 35 – 37

# 6. Adroddiadau Archwilio Cymru

**150.** Mae ein hadroddiad gwaddol yn nodi nifer o faterion y gall fod angen i'n Pwyllgor olynol fynd ar eu trywydd a'u trafod eto, gan gynnwys rhai adroddiadau arfaethedig Archwilio Cymru. Mae'r tabl isod yn rhestru allbynnau Archwilio Cymru a gyhoeddwyd cyn ein hadroddiad gwaddol nad ydym wedi gallu eu trafod neu sy'n debygol o gael eu cyhoeddi cyn i'n Pwyllgor olynol gael ei sefydlu.

| Astudiaeth | Nod |
|---|---|
| **Cadw gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru yn fewnol** | Mae'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn edrych ar y penderfyniad i ddod â gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru yn fewnol a pha mor effeithiol y bu'r broses hon. |
| **Profi, Olrhain, Diogelu (POD)** | Trosolwg o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, sy'n edrych ar ei sefydlu a'i datblygiad parhaus. |
| **Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)** | Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor gyda diweddariad a rhai canfyddiadau dros dro ar 15 Rhagfyr 2020.[49] Mae adroddiad manylach yn cael ei lunio. |
| **Gwaith dilynol ar yr adolygiad ar y cyd yn BIP Cwm Taf** | Adroddiad dilynol ar y gwaith arolygu ar y cyd gan Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |
| **Cefnogi llesiant staff y GIG** | Yn dilyn ei waith archwilio lleol, mae Archwilio Cymru yn llunio sylwadau ar reoli llesiant staff, gyda ffocws penodol ar staff sydd mewn mwy o berygl o ddal Covid-19. |
| **Rhaglen frechu Covid-19** | Sylwadau cychwynnol yn ystyried y cynlluniau ar gyfer y rhaglen frechu a'i hariannu a sut y mae'n gweithio'n ymarferol. |
| **Gwasanaethau dewisol awdurdodau lleol** | Ystyried maint y newidiadau yn y ddarpariaeth ddewisol ac a oes gan gynghorau ddull strategol effeithiol o benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau dewisol yn y dyfodol. |
| **Gwasanaethau orthopedig** | Bydd y crynodeb cenedlaethol hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau gwaith archwilio lleol ac yn myfyrio ar effaith ehangach Covid-19 ar ddarparu gwasanaethau.<br>Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad yn dilyn adroddiad blaenorol Archwilio Cymru ac rydym wedi cadw llygad arno. |
| **Gofal heb ei drefnu** | Sylwadau cychwynnol, wedi'u llywio gan declyn data rhyngweithiol. |

[49] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 15 Rhagfyr 2020

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)** | Adroddiad a fydd yn tynnu sylw at fanteision a heriau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol. |

Senedd Cymru
**Fforwm y Cadeiryddion**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **UnedGydgysylltu@senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Fforwm y Cadeiryddion**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



www.senedd.cymru

# Am y fforwm Cadeiryddion

Mae Fforwm y Cadeiryddion yn dwyn Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd ynghyd i gydgysylltu gwaith, mynd i'r afael â materion ymarferol sy'n effeithio ar weithrediad pwyllgorau, ac yn ystyried materion strategol trawsbynciol. Caiff y Fforwm ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cyfarfod tua chwe gwaith y flwyddyn..

## Cadeirydd:



**Elin Jones AS (Llywydd)**
Plaid Cymru

## Aelodau y Fforwm:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Russell George AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Ann Jones AS**
Llafur Cymru



**Dai Lloyd AS**
Plaid Cymru



**Lynne Neagle AS**
Llafur Cymru



**David Rees AS**
Llafur Cymru



**Bethan Sayed AS**
Plaid Cymru



**Helen Mary Jones AS**
Plaid Cymru

# Fforwm y Cadeiryddion

## Cyflwyniad

**1.** Wrth i ni nesáu at ddiwedd y Bumed Senedd, rydym wedi myfyrio ar ein hamser fel Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd ac, yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi rhai agweddau ar ein profiad a fydd, yn ein barn ni, yn ddefnyddiol i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd pan ddaw'r amser i ystyried ei rôl yn y broses o sefydlu pwyllgorau.

**2.** Nid yw'r adroddiad hwn yn disgrifio hanes gwaith ein pwyllgorau nac yn ddadansoddiad o'u heffeithiolrwydd. Yn hytrach, rydym yn cynnig ein barn gyfunol yn seiliedig ar ein profiad o gadeirio pwyllgorau'r Senedd dros y pum mlynedd diwethaf.

**3.** Rydym yn dechrau'r adroddiad gan fynegi ein barn ar rôl Cadeiryddion, cyn symud i drafod rhai o'r agweddau mwy ymarferol ar sut mae pwyllgorau'n gweithredu.

**4.** Mae'r tabl yn Atodiad A yn rhoi crynodeb o'n casgliadau a'n hargymhellion.

# 1. Rôl Cadeiryddion

## 1. 1. Ethol Cadeiryddion

**5.** Ni yw'r garfan gyntaf o Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd i gael ein hethol gan y Senedd. Rydym yn cymeradwyo'r dull hwn yn unfrydol.

**6.** Mae cael ein hethol gan y Senedd wedi ein galluogi i weithredu gyda mwy o annibyniaeth ac awdurdod.

**7.** Mewn Senedd sydd wedi gweld newidiadau sylweddol i grwpiau gwleidyddol ac aelodaeth pwyllgorau, ac sydd wedi wynebu ansicrwydd mawr yn sgil ymadael â'r UE a phandemig COVID-19, mae Cadeiryddion pwyllgorau wedi darparu cysondeb pwysig i Fusnes y Senedd.

## 1. 2. Ymrwymiad i'r rôl

**8.** Mae cadeirio pwyllgor yn ymrwymiad sylweddol. Rhaid i gadeirydd roi cryn dipyn o'i amser y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor i berfformio'n effeithiol. Mae'r rôl yn un o ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol, a meithrin perthnasoedd ag aelodau pwyllgorau sydd, yn ei dro, yn hwyluso ymddiriedaeth a chonsensws. Mae'r rôl hefyd yn gofyn am ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynrychioli'r pwyllgor mewn digwyddiadau allanol, gwaith cyfryngau, datblygu arbenigedd polisi ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol.

**9.** Yn ddelfrydol, byddai Cadeiryddion pwyllgorau yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau seneddol eraill i'w galluogi i ganolbwyntio'n llawn amser ar fod yn Gadeirydd pwyllgor h.y. peidio ag eistedd ar bwyllgor arall a/neu beidio â bod yn llefarydd ar ran y blaid.

> **Argymhelliad 1.** Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn fod yn anodd ei gyflawni, rydym yn argymell bod arweinwyr grwpiau pleidiau gwleidyddol yn y Chweched Senedd yn ystyried lleihau'r dyletswyddau seneddol a osodir ar aelodau o'u grŵp sy'n Gadeiryddion pwyllgorau, ac i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl wrth ddyrannu cyfrifoldebau llefarydd.

## 1. 3. Pennu'r cyfeiriad iawn

**10.** Mae'n bwysig bod Cadeiryddion pwyllgorau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y diwylliant cywir yn cael ei sefydlu o fewn eu pwyllgorau ar ddechrau Senedd, fel bod aelodau pwyllgorau, yn enwedig Aelodau newydd o'r Senedd, yn deall gwerth gwaith pwyllgor ac yn ymrwymo iddo.

**11.** Mae ein profiad o'r Bumed Senedd wedi dangos bod cymryd amser ar ddechrau bywyd pwyllgor i ddatblygu strategaeth sy'n ymgysylltu ag aelodau'r pwyllgor, yn gosod amcanion, ac yn mapio sut mae pwyllgor yn dymuno gweithredu yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod pwyllgorau'r Chweched Senedd yn treulio amser yn sefydlu amcanion hirdymor ar gyfer eu gwaith, strategaeth ar gyfer cyflawni eu hamcanion, a gweledigaeth o sut y maent yn dymuno gweithredu, cyn penderfynu ar fanylion eu rhaglenni gwaith.

**12.** Mae'n dilyn y dylai Cadeiryddion, trwy eu Clercod, sicrhau bod unrhyw Aelod sy'n ymuno â phwyllgor yn ystod Senedd yn cael cyfnod cynefino priodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut mae'r pwyllgor y maent yn ymuno ag ef yn gweithredu. At hynny, dylid rhoi cyfle i aelod newydd o'r pwyllgor gyfrannu at y gwaith o ddatblygu dull strategol pwyllgor yn y dyfodol.

**13.** Mae craffu effeithiol yn gofyn am flaenoriaethu. Mae ein profiad wedi dangos pwysigrwydd blaenoriaethu nifer gyfyngedig o faterion a chynnal ffocws arnynt dros amser. Mae hyn yn aml yn cael mwy o effaith ar bolisi a chyflawni'r Llywodraeth.

## Ymgysylltu

**14.** Mae pwyllgorau yn y Bumed Senedd wedi ymgysylltu â dinasyddion, rhanddeiliaid ac arbenigedd mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**15.** Mae ystyried gyda phwy y mae angen i bwyllgor ymgysylltu â hwy, a sut orau i ymgysylltu â hwy, er mwyn cyflawni amcanion pwyllgor yn rhan arferol o gynllunio gwaith.

**16.** Mae cyfle ehangach i bwyllgorau, wrth sefydlu eu hunain ar ddechrau'r Senedd nesaf, osod dull mwy cyffredinol o ymgysylltu fel rhan o'u strategaeth unigol i gyflawni'r amcanion a osodir ganddynt.

**17.** Er enghraifft, gallai pwyllgor benderfynu:

- blaenoriaethu cael presenoldeb personol yn rheolaidd ar draws gwahanol leoliadau yng Nghymru;
- defnyddio dull gweithredu rhithwir yn bennaf;
- treulio llai o amser mewn cyfarfodydd ffurfiol a mwy o amser yn gweithio mewn ffyrdd eraill;

- blaenoriaethu ymgysylltu â dinasyddion (efallai drwy ddefnyddio cynulliadau dinasyddion); a/neu
- blaenoriaethu ymgysylltu arbenigol.

**18.** Wrth gwrs, mae llawer o ddulliau gweithredu eraill yn bosibl, nodir y rhai uchod fel enghraifft yn unig.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod pwyllgorau yn ystyried eu dull ehangach o ymgysylltu pan fyddant yn sefydlu eu hamcanion a'u strategaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd.

**19.** Mae mwy y gellir ei wneud i ddeall y bobl y mae pwyllgorau yn ymgysylltu â hwy. Dylid ystyried sut y gellir casglu data fel y gall pwyllgorau ddeall yn well pwy y maent yn ymgysylltu â hwy drwy eu gwaith ac, yn hollbwysig efallai, pwy nad ydynt yn eu cyrraedd eto.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod gwybodaeth am y bobl y mae pwyllgorau yn ymgysylltu â hwy yn cael ei chasglu a'i hadrodd drwy gydol y Chweched Senedd er mwyn galluogi pwyllgorau a Fforwm y Cadeiryddion i fonitro pwy y mae pwyllgorau yn ymgysylltu â hwy ac a yw'r ymgysylltiad hwnnw yn cyflawni amcanion y pwyllgor.

### Cymorth i'r pwyllgorau

**20.** Mae'r cymorth a roddir i ni, ac i'n pwyllgorau, gan staff Comisiwn y Senedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

**21.** Er ei fod yn bosibl y bydd angen lefel uwch o gymorth ar bwyllgor pan gaiff ei sefydlu ac yn ystod ei flynyddoedd cyntaf o weithredu, dylai'r dull o gefnogi pwyllgorau aeddfedu wrth iddynt ddatblygu, a bod yn gymesur ag anghenion pob pwyllgor ar adeg benodol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Cadeiryddion, gyda chefnogaeth eu Clercod, yn ystyried y cymorth sydd ei angen ar aelodau pwyllgorau o bryd i'w gilydd. Efallai fod dadl dros addasu'r gefnogaeth honno wrth i aelodau'r pwyllgor ddatblygu yn eu rolau dros gyfnod Senedd, ac wrth i bwyllgor wynebu gwahanol dasgau.

## 1. 4. Deall effaith gwaith pwyllgorau

**22.** Rydym yn credu bod angen gwneud mwy i ddeall effaith gwaith pwyllgorau.

**23.** Mae'r Athro Diana Stirbu wedi cael ei chomisiynu i ddatblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd.

**24.** Bydd hyn yn cynnwys cynnig ar gyfer sut y gall pwyllgorau fonitro amrywiaeth eu hymgysylltiad yn well a sut y gall Fforwm y Cadeiryddion chwarae rôl wrth ystyried y darlun cyffredinol o ran amrywiaeth ymgysylltiad pwyllgorau.

**25.** Yn ein cyfarfod ar 22 Hydref 2020, gwnaethom gymeradwyo'r dull i'w gymryd gan yr Athro Stirbu i'r gwaith hwn, a chyfrannodd nifer o Gadeiryddion at ei gwaith.

**26.** Disgwylir adroddiad terfynol o waith yr Athro Stirbu ym mis Ebrill 2021.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Fforwm Cadeiryddion y Chweched Senedd yn ystyried adroddiad yr Athro Stirbu cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd.

# 2. Strwythurau pwyllgorau

## 2. 1. Maint pwyllgorau

**27.** Mae maint pwyllgorau yn amrywio yn ôl gofynion swyddogaeth a chydbwysedd gwleidyddol.

### Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

**28.** Dechreuodd y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y Bumed Senedd gydag wyth aelod. Roedd hyn yn ostyngiad mewn maint o'i gymharu â'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth yn y Pedwerydd Cynulliad [Senedd], a oedd yn gweithredu gyda 10 o aelodau.

**29.** Ar 18 Mehefin 2019, gostyngwyd aelodaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth i chwe aelod.

**30.** Er yr oedd gan rai Cadeiryddion amheuon ar y dechrau o ran lleihau maint y Pwyllgorau o wyth i chwe aelod, oherwydd y risg uwch o gyfarfodydd heb gworwm, mae'r rhan fwyaf yn credu bod presenoldeb ac ymgysylltu ag aelodau wedi gwella ers y gostyngiad mewn maint.

**31.** Er mwyn cadarnhau ein barn ar bresenoldeb, mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi rhoi data presenoldeb cyfanredol i ni ar gyfer y pwyllgorau hynny y mae'r newid yn nifer yr aelodau yn effeithio arnynt.

**32.** Mae'r data hwn yn rhoi syniad bod presenoldeb wedi gwella yn sgil gostwng maint y pwyllgorau.[1]

**33.** Er hwylustod, gellir nodi hyn fel nifer cyfartalog y seddi sy'n cael eu gadael yn wag ar draws y pwyllgorau yr effeithir arnynt. Mae sedd wag yn golygu nad yw aelod wedi mynychu cyfarfod ac nad oes eilydd wedi mynychu yn ei le h.y. mae sedd wedi cael ei gadael yn wag drwy gydol cyfarfod.

**34.** Oherwydd y newid sylweddol i'r ffordd y mae pwyllgorau wedi gweithredu ers cyflwyno cyfyngiadau iechyd cyhoeddus mewn ymateb i bandemig COVID-19, rydym wedi cyfyngu'r cyfnod ar gyfer cymharu hyd at yr adeg pan symudodd pwyllgorau i weithredu'n rhithwir.

[1] Cofnodir bod aelod pwyllgor wedi mynychu cyfarfod pwyllgor os yw'n mynychu unrhyw ran o gyfarfod pwyllgor.

| Nifer yr aelodau | Nifer cymedrig y seddi sy'n cael eu gadael yn wag bob wythnos ar draws pwyllgorau yr effeithir arnynt (i'r sedd lawn agosaf) |
|---|---|
| Wyth aelod (cyn 18 Mehefin 2019) | 7 |
| Chwe aelod (rhwng 19 Mehefin 2019 a 26 Ebrill 2020) | 4 |

**35.** Er ei fod yn sylw sy'n fwy perthnasol i adran arall o'r adroddiad hwn, mae'r data a gawsom hefyd wedi dangos gwelliant pellach o ran presenoldeb ar gyfer y garfan hon o bwyllgorau ers iddynt symud i gyfarfodydd rhithwir.[2]

| Nifer yr aelodau | Nifer cymedrig y seddi sy'n cael eu gadael yn wag bob wythnos ar draws pwyllgorau yr effeithir arnynt (i'r sedd lawn agosaf) |
|---|---|
| Chwe aelod (gan weithredu â chyfarfodydd rhithwir h.y. ar ôl 27 Ebrill 2020). | 2 |

**36.** Credwn fod y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth llai a welwyd yn y Bumed Senedd wedi gweithredu'n dda. Byddai cynnydd ym maint pwyllgorau, heb leihad yn nifer cyffredinol y pwyllgorau, yn gwanhau'r ffocws y gall aelodau unigol ei roi i waith pwyllgor (gan y byddai'n ofynnol i fwy o aelodau eistedd ar sawl pwyllgor).

**37.** Mae'r penderfyniad ynglŷn â maint pwyllgorau yn rhyngddibynnol ag ystyried nifer y pwyllgorau, eu swyddogaethau, a chyfansoddiad gwleidyddol Senedd.

**Argymhelliad 7.** Gan gydnabod bod yn rhaid ystyried y ffactorau ym mharagraff 37 hefyd, rydym yn argymell y byddai aelodaeth o chwech (ac yn sicr dim mwy nag wyth), yn lle da i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd ddechrau pan fydd yn ystyried sefydlu Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

[2] Efallai bod ffactorau eraill, y tu hwnt i symud i gyfarfodydd rhithwir, wedi cyfrannu at y gwelliant o ran presenoldeb. Er enghraifft, lleihad mewn ymrwymiadau sy'n cystadlu o ganlyniad i'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus.

**38.** Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nodwn hefyd fod newidiadau rheolaidd i aelodaeth pwyllgorau yn broblemus a bod sicrhau parhad aelodaeth yn allweddol i ddatblygu arbenigedd pwnc a chydlyniant pwyllgorau.

### Pwyllgorau Arbenigol

**39.** Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi gweithredu'n dda gydag aelodaeth o bedwar, yng ngoleuni ei swyddogaeth benodol.

**40.** Ar y llaw arall, cafodd y Pwyllgor Deisebau broblemau i gynnal cworwm pan yr oedd ganddo aelodaeth o bedwar. Mae'r problemau hyn wedi lleihau i raddau helaeth ers iddo gael ei ehangu i bum aelod. Cafodd problemau sicrhau cworwm y Pwyllgor Deisebau ei effeithio hefyd o ganlyniad i'r ffaith bod ganddo aelodau annibynnol, nad ydynt yn gallu anfon dirprwy mewn amgylchiadau lle na allant ddod i gyfarfod.

**41.** Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog wedi nodi bod ei aelodaeth, sy'n cynnwys holl Gadeiryddion pwyllgorau eraill, wedi bod yn rhy fawr, ac mae o'r farn y byddai aelodaeth o wyth yn fwy priodol i bwyllgor sydd â'i swyddogaethau.

> **Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylid adolygu maint y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn y Chweched Senedd, yng ngoleuni profiad yn y Bumed Senedd.

**42.** O ganlyniad i'r gostyngiad ym maint y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y Senedd hon, roedd y cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor yn ffafrio'r wrthblaid. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ddeinameg y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**43.** Nid oedd maint y Pwyllgor Cyllid yn effeithio'n benodol ar ei weithrediad. Roedd gan y Pwyllgor Cyllid gydbwysedd gwleidyddol a oedd yn ffafrio'r wrthblaid hefyd.

**44.** Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi cael llwyth gwaith cynyddol yn y Bumed Senedd, gan olygu bod angen cyfarfodydd ychwanegol a mwy o ymrwymiad amser gan ei aelodau, yn ogystal â chymorth ychwanegol.

## 2. 2. Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol

**45.** Credwn fod Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth cyfun h.y. pwyllgorau sy'n cyfuno rolau craffu ar bolisi a deddfwriaeth yn gweithio'n dda.

**46.** Mae camau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol a chamau deddfwriaethol yn rhyngddibynnol o fewn maes polisi. Mae'n hanfodol deall y camau hyn yn eu cyfanrwydd er mwyn craffu'n effeithiol ar y llywodraeth.

**47.** Er bod gweithdrefnau penodol yn berthnasol i'r gwaith o graffu ar Filiau, mae cyd-destun polisi ehangach y mae pob darn o ddeddfwriaeth yn rhan ohono. Mae gwybodaeth bwnc o leiaf mor bwysig i'r gwaith o graffu ar Fil â bod yn gyfarwydd â'r weithdrefn.

**48.** Mae Aelodau, a Chadeiryddion yn benodol, yn datblygu gwybodaeth bolisi a chysylltiadau â rhanddeiliaid sy'n amhrisiadwy pan gânt eu cymhwyso i'r ddwy swyddogaeth.

**49.** Gall pwysau'r gwaith craffu ar Filiau effeithio ar allu pwyllgor i fynd ar drywydd agweddau eraill ar ei gylch gwaith, yn enwedig pan fydd Biliau'r llywodraeth yn cael eu dosbarthu'n anwastad ar draws meysydd polisi. Gall hyn leihau gallu pwyllgor i graffu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd eraill o gylch gwaith pwyllgor.

**50.** Mae mwy y gellir ei wneud i fynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau hwn heb symud oddi wrth fodel gweithredu ar gyfer pwyllgorau sy'n canolbwyntio ar y dull swyddogaeth ddeuol. Rydym yn mynd i'r afael â hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol barhau yn y Chweched Senedd.

## 2. 3. Cylchoedd gwaith

**51.** Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chafwyd problemau gyda chylchoedd gwaith pwyllgorau. Sefydlwyd y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth heb ffiniau llym i'w cylch gwaith er mwyn caniatáu iddynt fynd ar drywydd materion y tu hwnt i seilos polisïau. Mae hyn wedi bod yn fantais ar adegau wrth reoli llwythi gwaith craffu a mynd ar drywydd materion sy'n berthnasol i wahanol gyfrifoldebau Gweinidogol.

**52.** Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol gyda chylch gwaith penodol yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. Er ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd pwyllgor sydd â'r un cylch gwaith yn cael ei sefydlu yn y Chweched Senedd, cyflawnodd ystod o swyddogaethau craffu y bydd

angen i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd eu hystyried wrth gynnig strwythur pwyllgor.[3]

**53.** Mae rhai pwyllgorau wedi wynebu llwythi gwaith a oedd bron yn anghynaladwy ar adegau yn ystod y Bumed Senedd. Yn benodol, rydym yn nodi ehangder cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'i lwyth gwaith craffu ar Filiau, a maint y ddeddfwriaeth y bu'n rhaid i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eu hystyried ar adegau ochr yn ochr â'i gylch gwaith craffu arall.

Nifer y Biliau a drafodwyd gan y pwyllgor cyfrifol

| Y pwyllgor cyfrifol | Biliau |
|---|---|
| Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | 1 |
| Pwyllgor o'r Senedd Gyfan | 3 |
| Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 4 |
| Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol | 1 |
| Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau | 1[4] |
| Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau | 6 |
| Y Pwyllgor Cyllid[5] | 1 |
| Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon | 5 |
| Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 2 |

**54.** Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y deisebau y mae'n ofynnol iddo eu hystyried. Bydd angen ystyried sut i reoli'r cynnydd hwn yn y llwyth gwaith, os bydd nifer y deisebau a geir yn parhau i gynyddu yn y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn perthynas â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar

---

[3]. Nid yw agweddau ar gylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn gweithredu mwyach o ganlyniad i'r ffordd y mae'r broses o ymadael â'r UE wedi datblygu ers sefydlu'r Pwyllgor. Dyma'r rheswm pam ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd pwyllgor sydd â'r un cylch gwaith yn cael ei sefydlu yn y Chweched Senedd.

[4] Cafodd y Bil a gyfeiriwyd i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei dynnu'n ôl yn fuan ar ôl ei gyflwyno (y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)).

[5] Cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid ei Fil ei hun hefyd, sydd bellach yn Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

gyfer y Chweched Senedd cyn gynted ag y bo modd yn y Chweched Senedd, fel y gall y Pwyllgor Busnes ystyried y goblygiadau i bwyllgorau a'u llwyth gwaith.

**Argymhelliad 11.** Gall y broses o graffu ar Filiau ei hun greu rhwystrau i bwyllgor a'i staff. Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd (neu bwyllgor arall sy'n gyfrifol am weithdrefnau'r Senedd) yn cynnal adolygiad o'r broses o gynnal gwaith craffu ar Filiau i asesu a yw mor effeithlon ac effeithiol ag y gallai fod.

**55.** Credwn y dylid cynnwys rhywfaint o gapasiti ychwanegol yn y system bwyllgorau.

**56.** Rydym yn cydnabod bod Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd wedi sefydlu Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth wrth gefn yn wreiddiol a oedd i'w ddefnyddio fel ffordd o leddfu pwysau yn y system bwyllgorau a sicrhau bod capasiti digonol i greu pwyllgor â therfyn amser i ystyried Diwygio Etholiadol y Senedd yn ystod y Bumed Senedd.

**57.** Yn ddealladwy, ailbennwyd tasg newydd yn gyflym i'r Pwyllgor wrth gefn i ystyried y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r broses Brexit (fel y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol) gan adael y Pwyllgor hwnnw heb fawr o gapasiti i ystyried Biliau nad ydynt yn gysylltiedig â'i gylch gwaith craidd.[6]

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd, wrth ystyried sefydlu pwyllgorau, yn ystyried y ffordd orau o gynnwys capasiti a hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i gyfnodau brig mewn llwythi gwaith pwyllgorau.

**58.** Rydym wedi gweld nifer o achosion lle mae pwyllgorau'r Senedd wedi gweithio gyda'i gilydd yn ystod y Bumed Senedd.

**59.** Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn gwaith rhyngseneddol, er enghraifft trwy'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit ac mewn perthynas â'r Fframweithiau Polisi Cyffredin ledled y DU.

**60.** Rydym yn cymeradwyo pwyllgorau'r Senedd sy'n gweithio gyda'i gilydd.

---

[6] Ystyriodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol un Bil Senedd, sef y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru). Fe reolodd hyn trwy greu is-bwyllgor. Mae'n ystyried ystod eang o faterion deddfwriaethol eraill, gan gynnwys Biliau'r DU, y broses o ddargadw Cyfraith yr UE, a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

**61.** Rydym yn cydnabod y gwerth y gall gweithio rhyngseneddol ei gyfrannu at ein gwaith.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn ystyried a oes unrhyw gamau y gall eu cymryd i helpu i alluogi gweithio ar y cyd rhwng pwyllgorau'r Senedd a gweithio rhyngseneddol, er enghraifft wrth gynllunio amserlenni busnes pwyllgorau.

## 2. 4. Cyfarfodydd rhithwir

**62.** Yn ein barn ni, mae dulliau rhithwir a hybrid o gynnal busnes pwyllgorau yma i aros ar ryw ffurf neu'i gilydd, ochr yn ochr â chynnal cyfarfodydd personol yn y Senedd ac mewn mannau eraill.

**63.** Mae ein profiad o weithredu o bell yn ystod y pandemig COVID-19 wedi dangos y gall pwyllgorau weithredu'n effeithiol trwy ddefnyddio technoleg cyfarfodydd rhithwir.

**64.** At hynny, mae gan y defnydd hwn o dechnoleg y potensial i wneud busnes pwyllgorau yn fwy hygyrch a hyblyg mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn o fudd i aelodau'r pwyllgor a'r rhai a wahoddir i gyfrannu at waith pwyllgor.

**65.** Heb gyfyngiadau gofod ffisegol a'r angen i roi cyfrif am amser teithio, gellir cynnull cyfarfodydd rhithwir yn gyflymach ac ar adegau yn ystod yr wythnos na fyddai efallai wedi bod yn addas ar gyfer busnes y Senedd o'r blaen.

**66.** Mae'n bosibl y gallai'r hyblygrwydd hwn alluogi busnes pwyllgorau i ystyried cyfrifoldebau teuluol aelodau pwyllgorau, staff, a'r rhai a wahoddir i gyfrannu at fusnes pwyllgorau yn well.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell, o fewn y ffiniau a osodwyd ar gyfer busnes pwyllgorau gan Gomisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes yn y Chweched Senedd, y dylai fod yn fater i bwyllgorau unigol benderfynu ar eu dull gweithredu fesul cyfarfod h.y. a fydd cyfarfodydd yn bersonol, hybrid, a/neu'n gyfarfodydd a gynhelir o bell, a dyma fydd y ffordd orau o'u galluogi i gyflawni eu hamcanion.

## 2. 5. Fforwm y Cadeiryddion

**67.** Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi ychwanegu gwerth at ein gwaith trwy ddarparu amgylchedd lle gallwn fynd i'r afael â materion craffu trawsbynciol, rhannu arfer da, ac edrych yn fwy strategol ar waith pwyllgorau.

**68.** Yn ogystal, fel fforwm ymgynghorol, mae wedi helpu i lywio penderfyniadau Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes sy'n effeithio ar sut mae'r pwyllgorau'n gweithredu. Er enghraifft, mewn perthynas ag amserlennu a newidiadau i fusnes sy'n ofynnol o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

**69.** Credwn fod Fforwm y Cadeiryddion yn gweithio'n dda fel grŵp anffurfiol ac rydym yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Busnes i ddarparu slot cyfarfod ar yr amserlen i'r Fforwm ar ddiwedd pob hanner tymor.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod y Llywydd yn sefydlu Fforwm Cadeiryddion yn y Chweched Senedd a bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn trefnu slot rheolaidd ar yr amserlen i'r Fforwm gyfarfod.

# Atodiad A – Crynodeb o'n barn

## Ethol Cadeiryddion

Ni yw'r garfan gyntaf o Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd i gael ein hethol gan y Senedd. Rydym yn cymeradwyo'r dull hwn yn unfrydol.

## Ymrwymiad i'r rôl

**Argymhelliad 1.** Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn fod yn anodd ei gyflawni, rydym yn argymell bod arweinwyr grwpiau pleidiau gwleidyddol yn y Chweched Senedd yn ystyried lleihau'r dyletswyddau seneddol a osodir ar aelodau o'u grŵp sy'n Gadeiryddion pwyllgorau, ac i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl wrth ddyrannu cyfrifoldebau llefarydd.

## Pennu'r cyfeiriad iawn.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod pwyllgorau'r Chweched Senedd yn treulio amser yn sefydlu amcanion hirdymor ar gyfer eu gwaith, strategaeth ar gyfer cyflawni eu hamcanion, a gweledigaeth o sut y maent yn dymuno gweithredu, cyn penderfynu ar fanylion eu rhaglenni gwaith.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod pwyllgorau yn ystyried eu dull ehangach o ymgysylltu pan fyddant yn sefydlu eu hamcanion a'u strategaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod gwybodaeth am y bobl y mae pwyllgorau yn ymgysylltu â hwy yn cael ei chasglu a'i hadrodd drwy gydol Chweched Senedd er mwyn galluogi pwyllgorau a Fforwm y Cadeiryddion i fonitro pwy y mae pwyllgorau yn ymgysylltu â hwy ac a yw'r ymgysylltiad hwnnw yn cyflawni amcanion y pwyllgor.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Cadeiryddion, gyda chefnogaeth eu Clercod, yn ystyried y cymorth sydd ei angen ar aelodau pwyllgorau o bryd i'w gilydd. Efallai fod dadl dros addasu'r gefnogaeth honno wrth i aelodau'r pwyllgor ddatblygu yn eu rolau dros gyfnod Senedd, ac wrth i bwyllgor wynebu gwahanol dasgau.

## Deall effaith gwaith pwyllgorau

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Fforwm Cadeiryddion y Chweched Senedd yn ystyried adroddiad yr Athro Stirbu cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd.

## Maint pwyllgorau

**Argymhelliad 7.** Gan gydnabod bod yn rhaid ystyried y ffactorau ym mharagraff 36 hefyd, rydym yn argymell y byddai aelodaeth o chwech (ac yn sicr dim mwy nag wyth), yn lle da i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd ddechrau pan fydd yn ystyried sefydlu Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylid adolygu maint y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn y Chweched Senedd, yng ngoleuni profiad yn y Bumed Senedd.

## Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol barhau yn y Chweched Senedd.

## Cylchoedd gwaith

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn perthynas â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y Chweched Senedd cyn gynted ag y bo modd yn y Chweched Senedd, fel y gall y Pwyllgor Busnes ystyried y goblygiadau i bwyllgorau a'u llwyth gwaith.

**Argymhelliad 11.** Gall y broses o graffu ar Filiau ei hun greu rhwystrau i bwyllgor a'i staff. Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd (neu bwyllgor arall sy'n gyfrifol am weithdrefnau'r Senedd) yn cynnal adolygiad o'r broses o gynnal gwaith craffu ar Filiau i asesu a yw mor effeithlon ac effeithiol ag y gallai fod.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd, wrth ystyried sefydlu pwyllgorau, yn ystyried y ffordd orau o gynnwys capasiti a hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i gyfnodau brig mewn llwythi gwaith pwyllgorau.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn ystyried a oes unrhyw gamau y gall eu cymryd i helpu i alluogi gweithio ar y

cyd rhwng pwyllgorau'r Senedd a gweithio rhyngseneddol, er enghraifft wrth gynllunio amserlenni busnes pwyllgorau.

## Cyfarfodydd rhithwir

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell, o fewn y ffiniau a osodwyd ar gyfer busnes pwyllgorau gan Gomisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes yn y Chweched Senedd, y dylai fod yn fater i bwyllgorau unigol benderfynu ar eu dull gweithredu fesul cyfarfod h.y. a fydd cyfarfodydd yn bersonol, hybrid, a/neu'n gyfarfodydd a gynhelir o bell, a dyma fydd y ffordd orau o'u galluogi i gyflawni eu hamcanion.

## Fforwm y Cadeiryddion

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod y Llywydd yn sefydlu Fforwm Cadeiryddion yn y Chweched Senedd a bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn trefnu slot rheolaidd ar yr amserlen i'r Fforwm gyfarfod.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon